Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

# Templed Ymgeisio Cynllun Mynediad a Ffioedd 2020/21

| | |
|---|---|
| **Enw'r Sefydliad:** | Prifysgol Aberystwyth |
| **Cyfeiriad y Sefydliad:** | Y Dderbynfa, Campws Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3FL |

| | **Prif gyswllt** | **Cyswllt arall** |
|---|---|---|
| **Enw'r cyswllt:** | Yr Athro Elizabeth Treasure | Yr Athro Tim Woods |
| **Teitl y swydd:** | Is-ganghellor | Dirprwy Is-ganghellor |
| **Rhif ffôn:** | 01970 622010 | 01970 622009 |
| **Cyfeiriad e-bost:** | vice-chancellor@aber.ac.uk | tww@aber.ac.uk |

| **Enw'r sefydliad:** | |
|---|---|

**Adran 2. Cynllun Mynediad a Ffioedd**

Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn yr adran hon ar gyfer CCAUC, myfyrwyr, darpar fyfyrwyr ac eraill sydd â diddordeb. Ar ôl iddi gael ei chymeradwyo gan CCAUC, dylid ei chyhoeddi ar wefan y sefydliad cyn pen pythefnos ar ôl ei chyhoeddi.

*Yn hytrach na defnyddio'r ddalen glawr hon a fformat y penawdau a ddarperir, gall sefydliadau adlewyrchu eu brandio eu hunain yn gynnar yn natblygiad eu ceisiadau a chyn eu cyflwyno i CCAUC i'w cymeradwyo. Ni ddylai'r testun cyhoeddedig fod yn wahanol i'r testun yn adran hon y cynllun fel y'i cymeradwywyd gan CCAUC.*

Rhaid i gynlluniau mynediad a ffioedd cyhoeddedig fod ar gael yn rhwydd i fyfyrwyr, darpar fyfyrwyr ac eraill sydd â diddordeb.

**Cynnwys**


**1. CRYNODEB GWEITHREDOL** **Error! Bookmark not defined.**

**1.1 Sicrhau Cydraddoldeb Cyfle:** Error! Bookmark not defined.

**1.2 Hyrwyddo Addysg Uwch:** Error! Bookmark not defined.

**2. HYD Y CYNLLUNIAU** 5

**3. LEFELAU FFIOEDD** 6

**4. PARTNERIAETH Â MYFYRWYR** **Error! Bookmark not defined.**

**4.1 Siarter y Myfyrwyr** Error! Bookmark not defined.

**4.2 Llais y Myfyrwyr wrth Sicrhau Ansawdd, Gwella Ansawdd a Llywodraethu** Error! Bookmark not defined.

**4.3 Gwrando ar lais ehangach y Myfyrwyr ar gyfer y Cynllun Mynediad a Ffioedd** Error! Bookmark not defined.

**4.4 Llais y Myfyrwyr wrth gytuno ar Gynllun Mynediad a Ffioedd 2020/21** Error! Bookmark not defined.

**4.5 Sut caiff gwybodaeth am ffioedd a chymorth ariannol eu cyfleu i'r myfyrwyr** Error! Bookmark not defined.

**5. Y SAIL RESYMEGOL (GAN GYNNWYS DULL STRATEGOL)** **Error! Bookmark not defined.**

**5.1 Cynlluniau Mynediad a Ffioedd blaenorol** Error! Bookmark not defined.

**5.2 Lefelau Buddsoddi** Error! Bookmark not defined.

**5.3 Ymgorffori ac Alinio'r Cynllun Mynediad a Ffioedd yn strategol** Error! Bookmark not defined.

**5.4 Y Strategaeth Dysgu ac Addysgu** Error! Bookmark not defined.

**5.5 Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol** Error! Bookmark not defined.

**5.6. Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch** **Error! Bookmark not defined.**

**Amcanion a Darpariaeth**

**A) Mesurau i gynorthwyo unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch a sicrhau Cydraddoldeb Cyfle** Error! Bookmark not defined.

**B) Mesurau i Hyrwyddo Addysg Uwch** Error! Bookmark not defined.

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r Cynllun Mynediad a Ffioedd ar gyfer 2020/21 yn adlewyrchu gwerthoedd ein Cynllun Strategol 2018-23, sef Trawsnewidiol, Creadigol ac Arloesol, Cynhwysol, Uchelgeisiol a Chydweithredol. Mae is-strategaeth y Cynllun Strategol, sef y Strategaeth Dysgu ac Addysgu yn sail i lawer o'r gweithgareddau penodol a amlinellir yn y Cynllun Mynediad a Ffioedd hwn.

Yng Nghynllun Mynediad a Ffioedd 2020/21 cefnogir llwyddiant trawsnewidiol myfyrwyr yn ei holl ffurfiau. Mae'r gweithgareddau a gefnogir drwy'r Cynllun wedi'u dewis er mwyn datblygu llinell amser i gynorthwyo ein holl israddedigion o'r cam ymgeisio hyd at raddio a chyflogaeth neu astudiaethau pellach. Rydym wedi nodi grwpiau penodol nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol ac rydym yn cynnig darpariaeth benodol ar eu cyfer hwy neu'n teilwra darpariaeth sydd ar gael yn ehangach, er mwyn sicrhau bod rhwystrau i lwyddo yn cael eu dadansoddi cyn i fyfyrwyr ddod yma yn ogystal ag yn ystod eu hastudiaethau.

Mae'r Cynllun Mynediad a Ffioedd ar gyfer 2020/21 yn adlewyrchu buddsoddiadau mawr i'w gwneud gan y Brifysgol i gefnogi ehangu mynediad, sicrhau profiad rhagorol i fyfyrwyr a llwyddiant iddynt, ynghyd â pharatoi ein myfyrwyr ar gyfer cyflogaeth a bywyd ar ôl eu gradd. Amlinellir blaenoriaethau allweddol o dan bob adran o'r Cynllun, ac mae mentrau allweddol sy'n ymateb i'r blaenoriaethau hyn wedi'u hamlinellu isod:

### 1.1 Sicrhau Cydraddoldeb Cyfle:

- Ar y cam gwneud cais:

  **Blaenoriaethau Allweddol** – chwalu'r rhwystrau rhag mynediad i addysg uwch, boed y rheiny yn ariannol, yn gymdeithasol neu'n gorfforol; mynd ati'n arloesol i ymgysylltu â myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig.

  **Prif fentrau sy'n ymateb i'r flaenoriaeth hon** – Prifysgol Haf Aberystwyth, derbyn wedi'i dargedu, darparu rhaglenni bwrsariaeth i chwalu rhwystrau ariannol.

- Yn ystod eu hastudiaethau:

  **Blaenoriaethau Allweddol** – sicrhau'r gefnogaeth orau i fyfyrwyr â chefndiroedd gwahanol i gyflawni eu gorau, darparu cefnogaeth ariannol, academaidd a bugeiliol yn ôl yr angen, gyda chefnogaeth adnoddau TG arloesol.

  **Prif fentrau sy'n ymateb i'r flaenoriaeth hon** – gwell defnydd ar ddata monitro presenoldeb er mwyn mynd i'r afael â chyfraddau cadw; Cronfa Caledi Aber i roi cymorth ariannol i fyfyrwyr sydd mewn perygl o adael/tynnu'n ôl.

- Ar ôl graddio:

  **Blaenoriaethau Allweddol** – chwalu'r rhwystrau rhag cael mynediad at yrfaoedd rhagorol, trwy gymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu

**Prif fentrau sy'n ymateb i'r flaenoriaeth hon** – datblygu cyrsiau gradd Integredig sy'n annog manteisio ar gyfleoedd blwyddyn integredig mewn diwydiant, cynlluniau i roi cyfleoedd profiad gwaith a meithrin sgiliau, a chipio data TrywyddGyrfa.

- Sicrhau cyfleoedd i ddysgu a rhagori drwy gyfrwng y Gymraeg.

  **Prif fenter**: Cynllun Cyfannol Strategol i'r Gymraeg Prifysgol Aberystwyth.

### 1.2 Hyrwyddo Addysg Uwch:

- Ar y cam gwneud cais:

  **Blaenoriaethau Allweddol** – cynnal gwaith rhyngweithiol arloesol gydag ysgolion yn seiliedig ar bwnc; annog uchelgais a gwella dyheadau.

  **Prif fentrau sy'n ymateb i'r flaenoriaeth hon** – Ysgoloriaethau Mynediad Aberystwyth.

- Yn ystod eu hastudiaethau:

  **Blaenoriaethau Allweddol** – hyrwyddo llwyddiant myfyrwyr trwy amrywiaeth o brosesau adborth cyson ac adolygu perfformiad myfyrwyr, dulliau addysgu arloesol ac adnoddau dysgu rhagorol.

  **Prif fentrau sy'n ymateb i'r flaenoriaeth hon** – monitro presenoldeb yn electronig, meincnodi cyd-fyfyrwyr a'r ap symudol ApAber, mannau dysgu ac adnoddau llyfrgell.

- Ar ôl graddio:

  **Blaenoriaethau Allweddol** – hyrwyddo cyflogadwyedd myfyrwyr.

  **Prif fentrau sy'n ymateb i'r flaenoriaeth hon** – cynyddu nifer y rhaglenni sydd â blwyddyn integredig dramor, rhaglenni profiad gwaith a chipio data TrywyddGyrfa.

- Sicrhau cyfleoedd i ddysgu a rhagori drwy gyfrwng y Gymraeg.

  **Prif fenter:** Cynllun Cyfannol Strategol i'r Gymraeg Prifysgol Aberystwyth.

## 2. HYD Y CYNLLUNIAU

Mae Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 'mewn grym' o'r dyddiad cymeradwyo ac yn dod i rym o'r flwyddyn academaidd y mae'r cynllun yn ymwneud â hi. Bydd y cynllun 2020/21 hwn mewn grym o ddyddiad Cymeradwyaeth CCAUC ym mis Mehefin/Gorffennaf 2019, yn amodol ar amrywiadau a gymeradwywyd gan CCAUC fel rhan o'i brosesau amrywio blynyddol, ac mewn grym yn y flwyddyn academaidd 20/21 (o 1 Awst 2020 hyd 31ain Gorffennaf 2021).

## 3. LEFELAU FFIOEDD

Bydd Aberystwyth yn codi'r lefel ffi uchaf ar gyfer israddedigion Cartref a TAR llawn amser sy'n dod o dan y cynllun hwn, ac ar gyfer y cyfnod 2020/21 yn unig. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r ffi uchaf ac ar hyn o bryd mae'n £9,000. Bydd unrhyw gynnydd yn y ffi llawn amser Cartref/UE a TAR ar gyfer 2020/21, neu flynyddoedd y cwrs yn y dyfodol, wedi'i gysylltu â'r cynnydd ffioedd uchaf sy'n gysylltiedig â chwyddiant, i'w bennu gan Lywodraeth Cymru. Bydd ffioedd cyfanredol am hyd cyfan y cwrs yn dibynnu ar hyd y rhaglen (mae'r rhan fwyaf o'n rhaglenni israddedig yn dair neu bedair blynedd o hyd), ac a yw'r rhaglen yn cynnwys Blwyddyn Astudio Dramor ai peidio (y ffi gyfredol yw £1,350) neu Flwyddyn mewn Diwydiant (y ffi gyfredol yw £1,800), ac a oes cynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant fel yr amlinellwyd uchod.

Ar adeg ysgrifennu hwn, roedd y ffi hon hefyd yn berthnasol i fyfyrwyr o wledydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig; gall hyn fod wedi newid cyn i'r Cynllun Ffioedd ddod i rym.

Ar gyfer rhaglenni Israddedig sydd â blwyddyn astudio integredig dramor, codir 15% o'r ffi uchaf ar y Flwyddyn Astudio Dramor, yn unol â chanllawiau CCAUC.

Ar gyfer rhaglenni israddedig sydd â blwyddyn integredig mewn diwydiant / blwyddyn integredig mewn ymarfer proffesiynol, codir y ffi am y flwyddyn yn 20% o'r ffi uchaf, yn unol â chanllawiau CCAUC.

Cynhelir adolygiad blynyddol ar ffioedd rhaglenni israddedig a gynigir am lai na'r uchafswm (gan gynnwys y rhai yn ein partneriaid Rhyddfraint), a gallai hynny arwain at gynnydd na fydd byth yn fwy na chwyddiant neu 5% flwyddyn ar ôl blwyddyn (pa un bynnag yw'r isaf). Ar adeg ysgrifennu hwn, mae rhai cyrsiau a ddarperir gan ein Partner Rhyddfraint, Coleg Gwent yn cael eu cynnig am £7,500.

Mae modd cael gwybodaeth am y ffioedd ar wefan y Brifysgol yn https://www.aber.ac.uk/cy/undergrad/before-you-apply/fees-finance/tuition-fees/#2018-19.

Gellir gweld Telerau ac Amodau Ffioedd, gan gynnwys adran ar gynnydd mewn ffioedd, yn https://www.aber.ac.uk/cy/undergrad/terms-conditions/

Mae ffioedd dysgu ar gyfer israddedigion Cartref / UE yn cael eu rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Brifysgol yn diwygio holl Ffioedd Dysgu Israddedig Cartref / UE yn unol ag unrhyw newid a gynghorir gan Lywodraeth Cymru.

Rydym yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) wrth ddatblygu'r holl ohebiadau a chyfathrebu.

## 4. PARTNERIAETH Â MYFYRWYR

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymgysylltu â'i Hundeb Myfyrwyr a'r corff myfyrwyr ehangach trwy gydol y flwyddyn mewn ystod eang o ffyrdd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Anogir pob myfyriwr i roi adborth ar eu profiadau a chyfrannu syniadau ac awgrymiadau i helpu i lunio eu haddysg. Mae ein Cynllun Strategol 2018-23 yn ymrwymo i 'wella'r profiad myfyriwr ymhellach a chydweithio'n agos ag Undeb y Myfyrwyr i gadw llais y myfyriwr yn ganolog i'n gweithgarwch.' Rydym yn cefnogi egwyddor graidd Datganiad Wise Cymru ar Bartneriaeth Addysg Uwch (2014) sef y dylai '*myfyrwyr fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu, yn hytrach na derbyn gwybodaeth yn oddefol*'.

### 4.1 Siarter y Myfyrwyr

Mae Siarter y Myfyrwyr, sy'n cael ei diweddaru'n flynyddol, yn crynhoi pwysigrwydd cynrychiolaeth effeithiol i fyfyrwyr, gydag ymrwymiad i gynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr fel partneriaid llawn yn ein pwyllgorau a'n strwythurau.

https://www.aber.ac.uk/cy/student/charter/

Yn ogystal, mae Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol yn llofnodi Cytundeb Perthynas, yn seiliedig ar ddeg egwyddor y cytunwyd arnynt. Mae Egwyddor 4 yn nodi bod 'Prifysgol Aberystwyth yn cydnabod mai UMAber yw prif lais myfyrwyr a bydd yn sicrhau yr ymgynghorir ag UMAber mewn da bryd cyn gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith ar fyfyrwyr'. Mae ymgorffori llais myfyrwyr yn ein prosesau llywodraethu yn ffordd i sicrhau bod y Brifysgol yn cadw at yr egwyddor hon.

https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/governance/studentsunion/2018-08-01---Relationship-Agreement-1.pdf

### 4.2 Llais y Myfyrwyr wrth Sicrhau Ansawdd, Gwella Ansawdd a Llywodraethu

Ar y lefel uchaf, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion Gweithrediaeth y Brifysgol a swyddogion Undeb y Myfyrwyr. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd i Undeb y Myfyrwyr sicrhau bod yr uwch reolwyr yn clywed llais y myfyrwyr ac yn sicrhau bod cydweithredu agos yn digwydd ar faterion sy'n cyfrannu at lwyddiant myfyrwyr. Yn ogystal â'r cyfarfodydd hyn rhwng y ddwy weithrediaeth, ceir cyfarfodydd anffurfiol aml rhwng yr Is-Ganghellor a llywydd Undeb y Myfyrwyr.

Yn strwythur ffurfiol y Brifysgol mae Undeb y Myfyrwyr wedi penodi cynrychiolwyr myfyrwyr ar y rhan fwyaf o'n prif bwyllgorau, gan gynnwys:

- Y Cyngor a'i isbwyllgorau
- Y Senedd (sef y prif gorff sy'n gyfrifol am y Strategaeth Dysgu ac Addysgu)
- Cynrychiolwyr ar lefel yr Athrofeydd/Cyfadrannau sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau ar feysydd allweddol wrth sicrhau ansawdd (gan gynnwys cymeradwyo cynlluniau astudio newydd a'u monitro a'u hadolygu'n flynyddol)
- Cynrychiolwyr adrannau sy'n cymryd rhan yn y Pwyllgorau Ymgynghori Staff/Myfyrwyr lle gellir codi pryderon myfyrwyr a mynd i'r afael â nhw mewn trafodaeth â'r myfyrwyr. Mae gwaith y cynrychiolwyr academaidd yn rhan bwysig o waith Undeb y Myfyrwyr wrth sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael gwrandawiad clir.
- Mae Cynrychiolwyr Academaidd yn cael hyfforddiant a chymorth yn eu rôl gan Undeb y Myfyrwyr. Maent yn gyfrifol am gynrychioli myfyrwyr ar lefel cwrs, grŵp blwyddyn neu faes pwnc, neu gallent fod yn gyfrifol am gynrychioli carfanau penodol megis myfyrwyr Cydanrhydedd neu fyfyrwyr Aeddfed.
- Strategaeth Dysgu ac Addysgu (Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr). Caiff y Strategaeth Dysgu ac Addysgu ei rhoi ar waith drwy sawl ffrwd gwaith. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr ar grwpiau gweithredu pob ffrwd berthnasol.

### 4.3 Gwrando ar lais ehangach y Myfyrwyr ar gyfer y Cynllun Mynediad a Ffioedd

Cylch gwaith Grŵp Llais y Myfyrwyr, sy'n cynnwys staff y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, yw brysbennu a dadansoddi sylwadau ac adborth myfyrwyr a dderbynnir trwy'r prif lwybrau canlynol:

i. Pwyllgorau Ymgynghori Staff-Myfyrwyr (y system gynrychiolaeth academaidd)

ii. cynllun adborth y Brifysgol Dy Lais ar Waith (*Your Voice Matters*)

Mae Dy Lais ar Waith yn ddull ledled y Brifysgol i ymgysylltu â myfyrwyr ac mae'n annog myfyrwyr i awgrymu ffyrdd i wella gweithgareddau a phrosesau yn y Brifysgol. Mae dwy elfen i Dy Lais ar Waith:

- *Rho wybod nawr* – porth dienw ar-lein lle gall myfyrwyr gyfrannu syniadau a sylwadau. Mae hyn yn hanfodol i fonitro bod mentrau yn cael eu gwireddu.
- *Holiaduron Gwerthuso Modiwlau* – mae holiaduron wedi'u cydlynu'n ganolog yn cael eu dosbarthu ar gyfer pob modiwl israddedig a gradd meistr integredig, gan alluogi toreth o ddata a gwybodaeth i lywio dull adrannau a dull cyffredinol y Brifysgol o wella profiad myfyrwyr.

Caiff dadansoddiad ac argymhellion Grŵp Llais y Myfyrwyr eu dangos i'r holl staff sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth a chynllunio academaidd, ac mae'n bwydo i'r uwch reolwyr. Mae'r dadansoddiad yn llywio penderfyniadau strategol ynghylch lefelau buddsoddi, gan gynnwys gwariant y Cynllun Mynediad a Ffioedd. Mae'r ddolen adborth i'r myfyriwr (ynghylch y gweithredu a wnaed) yn cael ei chlymu trwy ymgyrch gyfathrebu reolaidd sy'n rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr ynghylch sut mae eu lleisiau yn sbarduno newid.

### 4.4 Llais y Myfyrwyr wrth gytuno ar Gynllun Mynediad a Ffioedd 2020/21

Mae blaenoriaethau a chynnwys Cynllun Mynediad a Ffioedd 2020/21 wedi'u trafod yn llawn gyda swyddogion ein Hundeb Myfyrwyr, a hwythau wedi cymeradwyo'r buddsoddiadau a gynlluniwyd a chroesawu'r pwyslais o'r newydd ar ein hamcanion lles a Llais y Myfyrwyr. Mae Undeb y Myfyrwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymatebion i Lais y Myfyrwyr a wnaed trwy Grŵp Llais y Myfyrwyr. Mae cyfarfod ag Undeb y Myfyrwyr yn galluogi eglurder ynghylch ymhle y mae'r Cynlluniau Mynediad a Ffioedd yn cyd-fynd â blaenoriaethau, ymgyrchoedd a phryderon Undeb y Myfyrwyr.

Mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr a Swyddog Diwylliant Cymru/Llywydd UMCA hefyd yn aelodau o Gyngor y Brifysgol, a hwnnw wedi cymeradwyo fersiwn derfynol Cynllun Mynediad a Ffioedd 2020/21.

Mae'r Brifysgol yn gweithio gyda nifer o bartneriaid i sicrhau darpariaeth Israddedig ledled Cymru ac yn cydnabod ei chyfrifoldebau tuag at y myfyrwyr hynny. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth a'r profiad i fyfyrwyr. Mae'r gofyniad i ymgysylltu'n briodol â llais myfyrwyr wedi'i ymgorffori yn ein cytundebau partneriaeth ac rydym yn sicr bod eu prosesau ar gyfer cynrychiolaeth myfyrwyr yn gadarn a bod gan fyfyrwyr fecanwaith ar gyfer mynegi eu hanghenion a chael yr anghenion hynny wedi'u diwallu. Rydym hefyd yn hyderus bod lefel y buddsoddiad yn y Colegau Partner yn bodloni gofynion y Cynllun Ffioedd. Mae Partneriaid yn cymryd rhan, er enghraifft, yn ein Holiaduron Gwerthuso Modiwlau, yn ogystal â bod â ffyrdd eraill o ymgysylltu â llais eu myfyrwyr. Yng Ngholeg Cambria mae hyn ar ffurf cynrychiolaeth myfyrwyr ar Grŵp Gweithredol Addysg Uwch. Derbynnir adborth myfyrwyr hefyd drwy'r Holiaduron Gwerthuso Modiwlau a thrwy Arolygon Cenedlaethol Myfyrwyr 'ffug'. Yn ogystal, mae ein Hundeb Myfyrwyr yn weithgar gyda myfyrwyr yn ein partneriaid rhyddfraint.

### 4.5 Sut caiff gwybodaeth am ffioedd a chymorth ariannol eu cyfleu i'r myfyrwyr:

Rhoddir eglurdeb am lefel y ffi a'r cymorth ariannol sydd ar gael drwy'r canlynol:

i. Gwybodaeth yn y prosbectws
ii. Tudalennau pwrpasol ar wefan y Brifysgol
iii. Gwybodaeth Allweddol ar dudalennau cyrsiau (sydd wedi'u cysylltu â thudalennau UCAS)
iv. Cyflwyniadau a desgiau ymholi penodol mewn Diwrnodau Agored a Diwrnodau Ymweld; ac ardal bwrpasol ar y Diwrnod Agored Rhithiol.
v. Anfonir llythyrau unigol at ymgeiswyr sy'n derbyn cynnig am le ym Mhrifysgol Aberystwyth fel rhan o'r broses dderbyn ac yn y llythyr hwnnw cadarnheir lefel ffioedd eu cwrs.
vi. Mae myfyrwyr sydd â chynnig hefyd yn cael gwybod am y Telerau ac Amodau sy'n berthnasol i bob myfyriwr sy'n dechrau ar eu cwrs yn ystod eu blwyddyn mynediad, gan wneud y contract rhwng y Brifysgol a'r myfyriwr yn fwy tryloyw. Mae'r telerau ac amodau hyn yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ffioedd, gan gynnwys statws ffioedd ac unrhyw newidiadau i ffioedd. Mae hyn yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnata.
vii. Caiff ffioedd, bwrsariaethau a gwobrau eu hysbysebu'n eang drwy ein Diwrnodau Agored a'n Diwrnodau Ymweld a thrwy ein cyflwyniadau Diwrnod Agored rhithiol ar y we.
viii. Caiff manylion am y ffioedd a'r cymorth ariannol sydd ar gael eu cynnwys yn y llyfryn 'Gwybodaeth i Ymgeiswyr Llwyddiannus' a anfonir drwy'r post at ymgeiswyr wrth wneud cynnig iddynt.

Mae cyfathrebu ffioedd i ddarpar ymgeiswyr, yn enwedig y rheini o gefndiroedd ehangu mynediad a allai fod yn fwy amharod i fynd i ddyled, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn gwneud dewis gwybodus, hyderus am brifysgol. Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau y mae myfyrwyr yn eu hwynebu. Mae cyfathrebiadau ychwanegol yn cynnwys:

ix. Rydym yn esbonio lefelau'r ffioedd a'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr trwy ein gweithgareddau cyswllt ysgolion (gan gynnwys manylion y gwahanol lefelau o gymorth sydd ar gael i fyfyrwyr o Gymru a myfyrwyr sy'n hanu o weddill y Deyrnas Unedig), gan gynnwys cyflwyniadau i ysgolion a cholegau;
x. Cyfathrebiadau penodol i fyfyrwyr o gefndir gofal neu rai wedi ymddieithrio oddi wrth eu teulu, Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc a myfyrwyr ag anableddau a allai gael cymorth ychwanegol.
xi. Rhoddir gwybodaeth i ymgeiswyr am gymorth y gallant ei gael yn ystod eu hastudiaethau, gan gynnwys mynediad at gyfleoedd gwaith ar y campws (GwaithAber), y gronfa caledi a chyngor ar gynllunio ariannol.

## 5. Y SAIL RESYMEGOL (GAN GYNNWYS DULL STRATEGOL)

Ein nod trosfwaol yng Nghynllun Mynediad a Ffioedd 2020/21 yw buddsoddi incwm ffioedd yn strategol mewn gweithgareddau a fydd yn cynorthwyo'r holl israddedigion o'r cam ymgeisio hyd at raddio a thu hwnt, gan gynorthwyo â llwyddiant holl israddedigion Prifysgol Aberystwyth, waeth beth fo'u cefndir. Mae ein Cynllun Strategol 2018-23 yn rhoi ffocws cryf ar safle'r Brifysgol mewn cymdeithas, gan ei gwneud yn glir ein bod '*yn trwytho'n graddedigion gyda hyfforddiant academaidd a gwerthoedd dinasyddiaeth byd-eang a chenedlaethol*.'

### 5.1 Adolygu Cynlluniau Mynediad a Ffioedd blaenorol

Mae Prifysgol Aberystwyth yn falch o'r gwaith yr ydym wedi'i gyflawni drwy gynlluniau ffioedd blaenorol sydd wedi arwain at welliant cyson mewn nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yn ymwneud â llwyddiant myfyrwyr dros y pedair blynedd diwethaf.


Dau nod y Cynlluniau Mynediad a Ffioedd yw ehangu mynediad i brifysgol a gwella'r profiad myfyrwyr ac rydym wedi bod yn falch o nodi'r gwelliannau canlynol o ganlyniad i fuddsoddiadau a gweithgareddau a gefnogir trwy ein Cynlluniau Mynediad a Ffioedd.

**Mae mynediad i addysg uwch yn ehangu**
Mewn sawl cynllun olynol rydym wedi buddsoddi mewn ystod o weithgareddau sydd â'r nod o annog pobl ifanc o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch i ehangu eu dyheadau, gan wneud hynny drwy, er enghraifft, sesiynau un tro yn y gymuned a'n rhaglen Prifysgol Haf chwe wythnos ar gyfer disgyblion y nodwyd eu bod yn mewn perygl o dangyflawni. Rydym hefyd wedi rhoi gofal wedi'i dargedu i fyfyrwyr sydd o gefndiroedd gofal, gan ddechrau gwneud hynny cyn eu mynediad, a gweithio gydag ysgolion mewn ardaloedd cyfranogiad isel i helpu eu myfyrwyr i gyrraedd eu llawn botensial.

Rydym yn monitro effaith y gweithgareddau hyn drwy ddefnyddio nifer o fetrigau. Trwy fentora parhaus ar gyfranogwyr y Brifysgol Haf rydym wedi gallu monitro llwyddiant y cynllun hwn wrth alluogi myfyrwyr i gyflawni. Llwyddodd mwy na 93% o garfan 2016/17 i barhau i ryw lefel o addysg bellach (gan gynnwys Addysg Uwch) neu gyflogaeth neu ddychwelyd i astudiaeth Lefel 3 i ddilyn opsiynau newydd neu ailsefyll gyda mwy o hyder.

Rydym wedi bod yn falch o weld cynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan o blith y rheiny o sawl grŵp y nodwyd eu bod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch. Rydym wedi ymrwymo trwy ein Cynlluniau Mynediad a Ffioedd i fuddsoddi'n barhaus yn hygyrchedd ein hadeiladau a'n hystad ac mewn offer addysgu a dysgu er mwyn cefnogi anghenion dysgu myfyrwyr, yn ogystal â chynnig cefnogaeth arall fel cymryd nodiadau, mentora arbenigol, dysgu sgiliau astudio a help gan Gydlynwyr Anabledd Adrannau. Rydym wedi monitro llwyddiant y gwaith hwn trwy ddata recriwtio i sicrhau ein bod yn dileu rhwystrau corfforol a chymdeithasol i fynediad ar gyfer myfyrwyr ag anabledd (yn nangosyddion perfformiad diweddaraf diweddaraf yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch [ar gyfer newydd-ddyfodiaid yn 2017/18] rydym yn parhau i berfformio uwchlaw'r meincnod disgwyliedig a osodwyd ar ein cyfer yn y maes hwn). Cofnodwyd bod 10.8% o'n myfyrwyr yn 2017/18 yn derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl (ein perfformiad meincnod disgwyliedig oedd 7.6%). Rydym hefyd yn mynd ati i sicrhau adborth gan ein myfyrwyr ar y gwasanaethau a ddefnyddiwyd ganddynt trwy arolwg mewnol blynyddol yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd yr help a gawsant yn effeithlon ac yn ddefnyddiol.

Rydym wedi buddsoddi mewn gwaith gydag ysgolion i dargedu myfyrwyr o ardaloedd lle mae'n debygol na fydd gan deuluoedd brofiad blaenorol o Addysg Uwch. Defnyddir y data hwn gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) i fesur perfformiad sefydliadau AU ledled y Deyrnas Unedig. Ein nod yw aros yn agos at y meincnodau a osodwyd ar ein cyfer gan HESA yn y dangosydd hwn, sy'n ystyried ffactorau cyd-destun a all effeithio ar lwyddiant yn y dangosydd hwn.




*Gwelliannau yn y dyfodol*

Er ein bod yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig ar gyfer recriwtio myfyrwyr o gymdogaethau heb gynrychiolaeth ddigonol, rydym yn anelu at gyrraedd neu ragori ar y meincnod a osodwyd ar ein cyfer ac aros yn wastad â pherfformiad cyfartalog sefydliadau AU Cymru. Yn unol â hynny, rydym wedi nodi yn y cynllun hwn ymrwymiadau i ehangu mynediad ynghyd â rhaglen o weithgareddau ysgolion sydd wedi'u cynllunio i'n helpu i gadw'r perfformiad cyfredol a gwneud cynnydd tuag at y targedau hyn.

Mae'r Cynlluniau Mynediad a Ffioedd yn gweithio ar y cyd â Chynlluniau Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach y Brifysgol ar gyfer 2018/19 hyd at 2020/21, a thrwy'r rhain rydym yn amlinellu'r ddarpariaeth i ehangu mynediad sydd wedi'i hanelu'n bennaf at bobl o bob oed sy'n byw yn 2 gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ac at blant sy'n derbyn gofal, ymadawyr gofal a gofalwyr ifanc. Yn 2017/18, daeth 7.6% o'n myfyrwyr o'r ardaloedd yng nghwintel isaf y Mynegai Amddifadedd a 21.1% o ardaloedd yn y 2 gwintel isaf. Yn y ddau fesur rydym yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru ac yn anelu at wella ein perfformiad trwy fuddsoddi mewn gwaith wedi'i dargedu ar gyfer dysgwyr yn yr ardaloedd hyn.

**Prosesau recriwtio sy'n decach**

Ochr yn ochr â gwaith gydag ysgolion ac yn dilyn ymchwil ofalus i'n data derbyn, rydym wedi cyflwyno polisi derbyn cynhwysol sy'n cydnabod natur unigol pob cais a dderbyniwn. Cyhoeddir ein meini prawf ar gyfer cynigion cyd-destunol ar gyfer cynlluniau israddedig ar-lein a'u nod yw sicrhau bod ein polisïau derbyn yn deg ac yn gynhwysol ac yn ystyried y wybodaeth sydd ar gael i adnabod ymgeiswyr sydd â photensial waeth beth fo'u cefndir. Gellir gweld ein meini prawf mynediad yn https://www.aber.ac.uk/cy/undergrad/during-your-application/step-by-step-guide/contextual-offers/

**Hyrwyddo a chefnogi addysg drwy gyfrwng y Gymraeg**

Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae 21.8% o'n staff addysgu cyfwerth ag amser llawn bellach yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, sef dwbl y ffigwr o 10.8% ar gyfer gweddill Cymru (gwefan StatsCymru). Yn 2017/18, roedd ychydig dros 400 o fyfyrwyr yn astudio o leiaf 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg, a 315 ohonynt yn astudio o leiaf 40 credyd. Yn erbyn cefndir o ostyngiad cenedlaethol yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio Safon Uwch trwy gyfrwng y Gymraeg rydym yn

ymdrechu i annog rhagor o fyfyrwyr i fanteisio ar y cyrsiau cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnig yn Aberystwyth. Rydym wedi hyrwyddo addysg gyfrwng Cymraeg trwy ein gweithgareddau marchnata a digwyddiadau croesawu ar gyfer myfyrwyr Cymraeg a thrwy ein Cynllun Academaidd Cyfrwng Cymraeg, sy'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer darpariaeth Gymraeg ac yn cynnwys targedau ar gyfer pob adran. Rydym hefyd wedi cyflwyno ysgoloriaethau Cymraeg newydd i annog rhagor o fyfyrwyr i fanteisio ar y ddarpariaeth Gymraeg ac rydym yn cydweithio'n agos gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ein huchelgais ar gyfer y dyfodol yw cefnogi rhagor o fyfyrwyr i astudio o leiaf rhywfaint o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â mesur recriwtio cyfrwng Cymraeg, rydym yn holi barn ein myfyrwyr ar eu bodlonrwydd â'r cyfleoedd a ddarperir i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr 2019, nododd 74% o ymatebwyr eu bod yn cytuno â'r cwestiwn 'Fel siaradwr neu ddysgwr Cymraeg rwy'n fodlon â'r cyfleoedd a gefais i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg', a hynny'n gosod Aberystwyth yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer prifysgolion Cymru yn yr arolwg (71%). Trwy barhau i fuddsoddi yn ein hadnoddau a'n haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ein nod yw gwella ein perfformiad yn y maes hwn ymhellach.

**Hyrwyddo Addysg Uwch – gwella Addysg Uwch er lles profiad y myfyriwr**


Mae hyrwyddo addysg uwch yn ymwneud â gwella'r hyn a gynigiwn trwy ein darpariaeth academaidd, ein gwasanaethau cymorth a'n hamgylcheddau a'n hadnoddau dysgu ac addysgu, er mwyn sicrhau bod myfyrwyr o bob cefndir yn cael eu cefnogi i lwyddo a chael y cyfleoedd gorau i ddilyn eu gyrfa o ddewis. O ganlyniad i fuddsoddi yn y gwaith hwn trwy Gynlluniau Mynediad a Ffioedd blaenorol rydym wedi gweld yr effeithiau canlynol:

**Bodlonrwydd myfyrwyr yn parhau yn uchel**

Trwy gynlluniau olynol rydym wedi buddsoddi i wella profiad byw a dysgu ein myfyrwyr. Rydym wedi gwella ein hystad trwy uwchraddio mannau addysgu, gosod mwy o adnoddau electronig i ddysgu ac addysgu, buddsoddi mewn technolegau dysgu ar-lein a chipio darlithoedd a datblygu mannau dysgu a chymdeithasol mwy hyblyg. Rydym hefyd wedi buddsoddi i adnewyddu Llyfrgell Hugh Owen, sydd wrth galon ein campws. Mewn ymateb i adborth myfyrwyr, rydym wedi buddsoddi mewn newidiadau i amseroedd agor ein llyfrgell ac mewn adnoddau print a digidol ychwanegol.

Rydym wedi mesur llwyddiant y newidiadau hyn trwy fonitro adborth myfyrwyr yn agos a thrwy'r sgoriau bodlonrwydd cyfartalog sy'n cynyddu yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (NSS).

Yn arolwg yr NSS yn 2018 (y canlyniadau olaf a oedd ar gael ar adeg ysgrifennu'r cynllun hwn), sgoriodd Aberystwyth yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer sefydliadau addysg uwch Cymru ym mhob maes cwestiynau. Mae hyn yn adlewyrchu buddsoddiadau o'r cynlluniau ffioedd mewn dysgu ar-lein, gwella parhaus ar ein hamgylchedd dysgu ac addysgu, gweithgareddau i wella ein systemau tiwtoriaid personol a buddsoddi yn ein systemau llyfrgell a TG.




* Sylwer bod 'cyfartaledd y sector' uchod yn cynrychioli'r sgoriau cyfartalog o'r 133 sefydliad AU sydd wedi'u cynnwys yn y *Good University Guide* gan *The Sunday Times.*

Mae cyflawni hyn wedi gofyn am gryn fuddsoddiad ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod profiad y myfyriwr yn parhau i fod o'r ansawdd y mae ein myfyrwyr yn ei ddisgwyl, yn ogystal ag ymrwymo i gadw ein mannau addysgu a dysgu mewn cyflwr rhagorol ac i gyd-fynd â datblygiadau technolegol a newid mewn anghenion myfyrwyr ac addysgeg addysgu. Am y rheswm hwn, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein hystad, yn ein lleoliadau a'n deunyddiau dysgu ac addysgu ac mewn meysydd eraill o gefnogaeth academaidd trwy ein Cynlluniau Mynediad a Ffioedd.

**Graddedigion Aberystwyth yn parhau i fod yn gyflogadwy ac yn llwyddo yn eu gyrfaoedd**

Rydym hefyd wedi defnyddio Cynlluniau Mynediad a Ffioedd olynol i fuddsoddi mewn gweithgareddau sy'n cefnogi cyflogadwyedd graddedigion (gan gynnwys cymorth â gyrfaoedd a'n rhaglen lleoliadau gwaith) ac wedi gweld gwelliant cyson ond sylweddol yn y metrigau sy'n mesur hyn. Un fenter fawr fu TrywyddGyrfa, sy'n ein galluogi i asesu pa mor barod yw pob myfyriwr at eu gyrfa wrth iddynt ddechrau pob blwyddyn academaidd.
Caiff myfyrwyr eu holi am eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol a defnyddir canlyniadau'r holiadur i deilwra cyfleoedd gyrfa, a hyrwyddo gwasanaethau a fydd yn helpu myfyrwyr i baratoi at eu gyrfaoedd yn y dyfodol neu nodi llwybrau gyrfa posibl. Dengys y data ar gyfer 2017/18 fod 52% o fyfyrwyr ar ddechrau eu trydedd flwyddyn yn dal heb benderfynu ynghylch eu dyfodol ac roedd y ffigwr hwn wedi gostwng i 21% erbyn i'r myfyrwyr wneud holiadur ymadael ar adeg graddio.

Ceir tystiolaeth o lwyddiant ein gweithgareddau cyflogadwyedd yn y gwelliant cyson yn y ddau fesur cenedlaethol yn ymwneud â chyflogaeth graddedigion. Mae'r Dangosydd Rhagolygon Cyflogaeth (EPI) yn mesur cyfran y graddedigion sydd mewn gwaith neu mewn astudiaeth bellach chwe mis ar ôl iddynt raddio. Mae hyn wedi gwella'n gyson gennym dros y tair blynedd diwethaf:


| Myfyrwyr yn graddio yn | % mewn gwaith neu astudiaeth bellach |
|---|---|
| 2017 | 96.8% |
| 2016 | 95.4% |
| 2015 | 92.1% |

Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yng nghyfran y rhai mewn cyflogaeth neu astudiaeth bellach lle mae'r gyflogaeth neu'r astudiaeth bellach ar lefel broffesiynol (Dangosydd Rhagolygon Graddedigion).

| Myfyrwyr yn graddio yn | % mewn gwaith neu astudiaeth bellach ar lefel broffesiynol |
|---|---|
| 2017 | 78.6% |
| 2016 | 75.6% |
| 2015 | 68.2% |

*Gwaith pellach*
Er ein bod wrth gwrs yn falch o'r record hon, ac o gyflawniadau ein graddedigion, rydym yn cydnabod pwysau cynyddol y farchnad swyddi ar raddedigion ac rydym o'r farn bod angen buddsoddi parhaus i sicrhau ein bod yn gallu cefnogi ein myfyrwyr er mwyn iddynt, ar ôl graddio, fod â'r sylfaen orau bosibl ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

**Cefnogi myfyrwyr i lwyddo yn eu hastudiaethau**
Mae profiad da hefyd yn cael ei adlewyrchu yn nifer uwch y myfyrwyr sy'n cwblhau eu gradd yn llwyddiannus. Mae cyfraddau cwblhau a chadw, fel y'u mesurir gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), yn parhau ymhlith y gorau yn y sector a thrwy fuddsoddiad strategol wedi'i dargedu, rydym yn ceisio cadw'r record hon ynghyd â gwella arni. Fel y gwelir o'r graff canlynol, mae Aberystwyth wedi perfformio'n well na chyfartaledd y Deyrnas Unedig, cyfartaledd Cymru a'r meincnod a osodwyd ar ei gyfer gan HESA, gan berfformio'n gyson 2% pwynt yn well.




Fel rhan o'n gwaith i wella cyfraddau cadw myfyrwyr, mewn blynyddoedd blaenorol rydym wedi buddsoddi mewn newidiadau i'n system tiwtoriaid personol, gan gynnwys system ar-

lein i gefnogi hyn ac i roi gwell ystadegau ar bresenoldeb a pherfformiad myfyrwyr. Rydym wedi ymrwymo i wella ein dealltwriaeth o adael a thynnu'n ôl yn ystod y flwyddyn a'i leihau trwy ymyrraeth gynnar gan ein gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr ac rydym wedi bod yn falch o weld bod canran yr israddedigion llawn-amser sy'n gadael yn ystod y flwyddyn wedi gostwng o 4.3% i 4.1% rhwng 2016/17 a 2017/18.

### 5.2 Lefelau Buddsoddi

Er mwyn adeiladu ar y gwelliannau rydym wedi'u gwneud i'n seilwaith a'n gweithgareddau, rydym wedi mynd ati, yn ein Cynlluniau Mynediad a Ffioedd olynol, i ddatblygu Cynlluniau sy'n galluogi gwelliant parhaus mewn gweithgareddau sy'n cefnogi myfyrwyr ar bob cam o'u bywyd prifysgol. Mae amcanion y Cynllun yn mapio ar amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi myfyrwyr yng Nghymru, ac yn mapio ar daith myfyrwyr o'r cam cyn mynediad a'u dyheadau bryd hynny hyd at gyflogadwyedd graddedigion ac astudio pellach.

Mae lefel y buddsoddiad a ragwelir yng nghategorïau'r ddarpariaeth yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

Rydym yn bwriadu gwario rhwng 15% a 17% o incwm Cynllun Mynediad a Ffioedd ar weithgareddau ein Cynllun Mynediad a Ffioedd.

Mae cyfran sylweddol o israddedigion Aberystwyth yn dod o un neu fwy o gategorïau grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Mae ein gwaith i gefnogi Cydraddoldeb Cyfle i'r myfyrwyr hyn drwy'r Cynllun Mynediad a Ffioedd yn cydnabod ac yn ymateb i nifer o rwystrau i fynediad:

- Rhwystrau Ariannol – canfu data'r Adran Addysg ar gyrchfannau myfyrwyr Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5 yn 2016/17 fod 46% o fyfyrwyr o gefndiroedd a nodwyd yn rhai difreintiedig (ac yn gymwys am gyllid Premiwm Disgybl) wedi mynd ymlaen i Addysg Uwch ar ôl Cyfnod Allweddol 5, eto roedd hyn yn pum pwynt canran yn is na'u cyfoedion. Mae ein Cynllun Mynediad a Ffioedd ar gyfer 2020/21 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cronfeydd caledi a bwrsariaeth, cyngor ar arian a darparu cyfleoedd gwaith, i sicrhau bod gennym becyn o weithgareddau sy'n ymateb i bryderon ariannol darpar fyfyrwyr.

- Rhwystrau Cymdeithasol – yn aml mae gan fyfyrwyr o grwpiau ehangu mynediad lai o 'gyfalaf cymdeithasol' na myfyrwyr eraill. Efallai nad oes ganddynt hyder yn eu gallu eu hunain ac, yn enwedig yn achos myfyrwyr sydd yn gyntaf yn y teulu i fynd i Addysg Uwch, efallai y bydd angen cefnogaeth ac anogaeth ychwanegol arnynt i fynd drwy'r broses ymgeisio neu ddewis cwrs priodol. Byddwn yn buddsoddi mewn gweithgareddau sy'n mynd i'r afael â hyn, gan gynnwys gwaith ag ysgolion, gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at grwpiau dysgwyr penodol (gan gynnwys ymadawyr gofal) a gweithgareddau codi dyheadau, gan gynnwys rhai sy'n benodol i bwnc.

- Rhwystrau Corfforol – er mwyn sicrhau nad oes unrhyw anhygyrchedd yn atal unrhyw fyfyriwr a all ddewis astudio yn Aberystwyth, rydym yn buddsoddi yn ein hystad gorfforol ac mewn sicrhau bod offer cyfrifiadurol a TG yn cefnogi pob myfyriwr ac ar gael iddynt oll.

Mae gwariant ar feysydd y nodwyd eu bod yn cefnogi Hyrwyddo Addysg Uwch (profiad myfyrwyr) yn cyd-fynd â'n hamcanion strategol (fel y nodir yn ein Cynllun Strategol

2018-23) i wella profiad myfyrwyr trwy fuddsoddi yn ein hystad a'n seilwaith (gan gynnwys ein strategaethau digidol), buddsoddi yn y profiad dysgu ac addysgu a thechnolegau addysgu arloesol, ymgorffori sgiliau cyflogadwyedd i sicrhau bod myfyrwyr yn cael y cyfle gorau posibl i ddilyn eu gyrfa o ddewis a chadw llais y myfyriwr wrth galon ein gweithgareddau trwy gefnogi gweithgarwch sy'n cynnwys ein myfyrwyr wrth ffurfio eu profiad AU.

Caiff meysydd buddsoddi eu hadolygu'n flynyddol a byddant yn canolbwyntio ar wella perfformiad wrth hyrwyddo Addysg Uwch trwy fod yn ymatebol i lais a bodlonrwydd myfyrwyr, cyfraddau cadw, cyflawniad a chyflogadwyedd.

### 5.3 Ymgorffori ac Alinio'r Cynllun Mynediad a Ffioedd yn strategol

**Amcanion strategol**
Nod Cynllun Strategol Prifysgol Aberystwyth 2018-23 yw '*galluogi ein myfyrwyr i ddatgloi eu potensial a datblygu fel dysgwyr annibynnol mewn cymuned ddwyieithog gefnogol a chreadigol. Bydd ein myfyrwyr yn graddio yn feddylwyr beirniadol annibynnol gyda sgiliau trosglwyddadwy a disgyblaeth-benodol*.' Gellir gweld copi yn https://www.aber.ac.uk/cy/strategicplan/

Dyma amcanion craidd ein Cynllun Strategol:

*Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr*

Bydd y gweithgareddau yn y Cynllun Mynediad a Ffioedd o dan Amcan B2 isod (*Gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, gan gynnwys technolegau i wella'r profiad dysgu ac addysgu*) yn cyfrannu at amcan ein Cynllun Strategol i ddatblygu ein darpariaeth israddedig sy'n arwain at gyflogaeth ar lefel graddedig. Ar ben hynny, mae'n cyfrannu at ein nod o feithrin addysgu a dysgu arloesol ac annog staff i ddatblygu addysgeg sy'n sbarduno gwelliant parhaus yn y profiad dysgu ac addysgu. Mae buddsoddi mewn cyflogadwyedd o dan Amcan B3 (*Cryfhau Cyflogadwyedd Graddedigion*) yn cyfrannu at ein hymrwymiadau i ymgorffori sgiliau cyflogadwyedd ar draws ein rhaglenni, datblygu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith, a gwirfoddoli.

Mae gweithgareddau ehangu mynediad a gefnogir trwy'r Cynllun Mynediad a Ffioedd hefyd yn cyfrannu at amcanion y Cynllun Strategol. Bydd Amcan A2 (*Darparu cefnogaeth academaidd, lles ac ariannol o safon uchel i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU*) yn rhan o'r rhwydwaith cymorth, sef rhwydwaith a werthfawrogir gan ein myfyrwyr ac sy'n ein helpu i gyflawni amcan ein Cynllun Strategol i wella profiad myfyrwyr. Gwneir cyfraniad pellach at hyn gan Amcan A3 y Cynllun Mynediad a Ffioedd (*Gwella'r profiad addysg uwch i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol*), tra bydd ein buddsoddiad parhaus mewn gweithgareddau llais y myfyrwyr o dan Amcan B1 (*Cefnogi a Hyrwyddo Llais y Myfyrwyr*) yn cefnogi nod y Cynllun Strategol i gadw llais y myfyrwyr wrth galon ein gweithgarwch.

*Cyfrannu at Gymdeithas*

Mae ein Cynllun Mynediad a Ffioedd Amcan A1 (*Hyrwyddo mynediad ehangach a thecach i addysg uwch*) yn cynnwys ystod o weithgareddau sydd wedi'u targedu at godi dyheadau addysgol grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Cefnoga'r gweithgareddau hyn yr ymrwymiad a nodwyd yn ein Cynllun Strategol i wella mynediad i addysg uwch ac annog cyfranogiad, yn ogystal â'n nod i weithio gydag ysgolion i wella dysgu ledled Cymru.

Mae ein cynllun strategol hefyd yn ein hymrwymo i wella'r effaith a gawn ar wleidyddiaeth, economi, diwylliant a gwasanaethau cyhoeddus Cymru ac ar gryfhau'r cydweithio rhwng y dref a'r brifysgol trwy weithgareddau ar y cyd a myfyrwyr yn gwirfoddoli. Caiff yr amcanion hyn eu cefnogi gan ymrwymiadau ein Cynllun Mynediad a Ffioedd o dan Amcan B3 (*Cryfhau cyflogadwyedd graddedigion*) sydd â'r nod o wella setiau sgiliau ein myfyrwyr er mwyn iddynt, ar ôl graddio, fod yn gwbl barod i gyfrannu at fywyd, diwylliant ac economi Cymru a'r byd ehangach, a thrwy annog myfyrwyr i gymryd rhan mewn profiad gwaith a gweithgareddau gwirfoddoli i ehangu eu set sgiliau.

*Yr iaith Gymraeg a'i diwylliant*

Rydym yn ymfalchïo yn ein hanes cryf o ddarparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru. Mae ein Cynllun Strategol yn amlinellu ein hymrwymiad, gan wneud hyn drwy hyrwyddo datblygu darpariaeth academaidd Cymraeg a hyrwyddo amgylchedd sy'n galluogi myfyrwyr i ddewis byw a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Adlewyrchir yr ymrwymiad hwn i'r iaith ac i ddiwylliant Cymraeg yn y Cynllun Mynediad a Ffioedd yn Amcan A5 (*Cefnogi'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac annog manteisio ar gyrsiau cyfrwng Cymraeg*).

*Cyllid a Seilwaith*

Mae ein Cynllun Strategol yn cydnabod bod yn rhaid i'r strategaeth, er mwyn sicrhau llwyddiant yr amcanion a amlinellwyd, fod yn seiliedig ar gynaliadwyedd ariannol cadarn sy'n galluogi buddsoddiad wedi'i gynllunio yn yr ystad a seilwaith i wella profiad myfyrwyr a staff. Mae gwariant y Cynlluniau Mynediad a Ffioedd yn adlewyrchu'r egwyddor hon y dylai gwariant ystadau a seilwaith arwain at welliannau yn amgylcheddau dysgu, addysgu a byw ein myfyrwyr, gan gyfrannu at eu llwyddiant.

## 5.4 Y Strategaeth Dysgu ac Addysgu

Yn ystod 2019/20 byddwn yn datblygu ein Strategaeth Dysgu ac Addysgu newydd, gan adeiladu ar lwyddiant ein Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr, sef menter a oedd yn sylfaen ac yn arweiniad strategol clir ar gyfer gweithgarwch mewn llawer o Gynlluniau Mynediad a Ffioedd blaenorol. Trwy'r Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr llwyddom i sicrhau gwelliannau yn ein system Tiwtor Personol, ein defnydd o Ddadansoddeg Dysgu, ansawdd ein mannau dysgu ac addysgu a'n darpariaeth cymorth i fyfyrwyr (gan gynnwys yn y ddarpariaeth iechyd meddwl). Mae'r gwaith hwn wedi cael ei adolygu yn 2018/19 a bydd y Strategaeth Dysgu ac Addysgu newydd yn rhoi gweledigaeth glir ar gyfer gwella ein hamgylchedd Dysgu ac Addysgu a gwella'r strwythurau a phrosesau cefnogi ar gyfer y cyfnod o 2019 ymlaen.

## 5.5 Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Yn ystod 2019/20 byddwn yn adolygu ac yn adnewyddu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, gan dynnu ar wersi a ddysgwyd i nodi'r gweithgareddau gorau y dylem fuddsoddi ynddynt er mwyn darparu amgylchedd dysgu ac addysgu cynhwysol, wedi'i hyrwyddo trwy ein prosesau recriwtio, rheoli ystadau, dulliau cefnogi myfyrwyr a chyfathrebu.

## 5.6. Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch

Rydym yn sylweddoli bod y grwpiau canlynol wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch ac/neu angen cymorth ychwanegol. Mae'r grwpiau naill ai eisoes yn cael eu cydnabod gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) fel dangosydd cenedlaethol o berfformiad

cyfranogiad isel mewn addysg uwch neu wedi'u nodi gan gyrff allanol eraill fel rhai sydd angen cymorth ychwanegol i ymgysylltu ag addysg uwch a mynd i mewn iddi, neu gallant fod yn grwpiau y mae Aberystwyth yn draddodiadol wedi ei chael hi'n anodd eu recriwtio.

- Myfyrwyr o ardaloedd lle mae teuluoedd yn debygol o fod heb gefndir blaenorol o addysg uwch. Caiff y rhain eu cydnabod gan HESA fel dangosydd perfformiad cyfranogiad isel cenedlaethol. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael gan HESA (ar gyfer Prifysgol Aberystwyth 2016/17) yn dangos bod 26% o'n myfyrwyr newydd o gymdogaethau cyfranogiad isel. Bydd gweithgareddau wedi'u targedu at y myfyrwyr hyn yn canolbwyntio ar godi dyheadau a sicrhau gwybodaeth dryloyw i annog ymgeisio i addysg uwch, ynghyd â darparu cefnogaeth ymarferol. Nododd adroddiad WISERD *Mynediad i Addysg Uwch yng Nghymru* (2015) fod myfyrwyr o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru hyd at 7.5% yn llai tebygol o gymryd rhan mewn AU na'r rhai o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig. (Yn cysylltu ag Atodiad B targedau 3,4,5)
- Myfyrwyr o fewn cwintel isaf yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Dengys y data diweddaraf fod tua 10% o'n myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn dod o'r ardaloedd hyn a bydd targedu darpar ddysgwyr yn yr ardaloedd hyn yn ffocws i'r gwaith a wnawn trwy ein Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach, a fydd, o 2019/20, wedi'i alinio â'n Cynlluniau Mynediad a Ffioedd. (Yn cysylltu ag Atodiad B targedau 1,2)
- Myfyrwyr ag anableddau (mae tua 17% o'n hisraddedigion llawn-amser Cartref / UE yn datgan anabledd). Mae myfyrwyr ag anableddau hefyd yn cael eu cydnabod gan HESA yn ddangosydd perfformiad cyfranogiad isel cenedlaethol (yn y Dangosyddion Perfformiad HESA diweddaraf a gyhoeddwyd, cofnodwyd bod 10.8% o'n hisraddedigion llawn-amser yn cael Lwfans Myfyrwyr Anabl, a hynny yn erbyn meincnod disgwyliedig o 7.6%). Bydd gweithgareddau a dargedir at y myfyrwyr hyn yn canolbwyntio ar sicrhau mynediad cyfartal a chefnogaeth ymatebol trwy gydol taith y myfyriwr. (Yn cysylltu ag Atodiad B targedau 8, 9,10)
- Myfyrwyr Aeddfed (mae tua 12% o'n myfyrwyr wedi'u cofrestru'n aeddfed – sef eu bod yn 21 oed neu'n hŷn ar adeg cyrraedd y Brifysgol). Mae HESA yn cydnabod myfyrwyr aeddfed fel grŵp cyfranogiad isel cenedlaethol. Efallai bod gan y myfyrwyr hyn anghenion cymorth penodol ar ôl bod allan o addysg, wedi cyrraedd drwy lwybrau anhraddodiadol, neu fod ganddynt gyfrifoldebau gofal ychwanegol. Cydnabyddir bod oedolion sy'n ddysgwyr yn grŵp blaenoriaeth trwy'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach. Bydd annog mwy o oedolion i ddychwelyd i addysg yn ein helpu i ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithlu mwy medrus a bydd yn magu hyder mewn dysgwyr a allai fod wedi gadael/tynnu allan o addysg am amryw o resymau. (Yn cysylltu ag Atodiad B targed 7)
- Myfyrwyr o deuluoedd incwm is. Fel y nodwyd uchod, mae myfyrwyr o deuluoedd incwm is yn llai tebygol o fynd i Addysg Uwch. (Yn cysylltu ag Atodiad B targed 12)
- Myfyrwyr o gefndir gofal neu sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teulu, a Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc. Mae'r myfyrwyr hyn yn ffurfio nifer fechan o'n carfan myfyrwyr, ond mae ganddynt anghenion penodol gan nad oes ganddynt y gefnogaeth y mae'r rhan fwyaf o'n myfyrwyr yn ei chael gan deulu. Yn ôl adroddiad gan UCAS yn 2014, dim ond 6% o ymadawyr gofal sy'n mynd i Addysg Uwch (o'i gymharu â 40% o'r boblogaeth gyffredinol). Mae UCAS yn nodi bod diffyg gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael yn rhwystr i fynediad. Rydym yn gweithio'n galed trwy ein Canolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol i sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni eu potensial. (Yn cysylltu ag Atodiad B targed 6)

- Myfyrwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (tua 19.3% o'n myfyrwyr).
- Myfyrwyr cyfrwng Cymraeg (mae tua 10% o'n myfyrwyr llawn-amser Cartref/UE yn datgan eu bod yn 'rhugl'.) Rhan o'n gwaith trwy'r Cynllun Mynediad a Ffioedd ar gyfer 2019/20 yw cynyddu nifer y myfyrwyr rhugl sy'n gwneud rhyw ffurf o'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â myfyrwyr sydd â Chymraeg da ond sydd heb hyder i'w defnyddio yn academaidd ac yn broffesiynol. (Yn cysylltu ag Atodiad B targedau 14, 15)
- Rydym hefyd yn cydnabod y gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen ar fyfyrwyr sydd â chymwysterau anhraddodiadol a myfyrwyr sy'n dechrau ar raglenni Blwyddyn 0. Gyda'r gefnogaeth gywir, gall y myfyrwyr hyn wneud cynnydd da ac mae llawer o'n Cynllun Mynediad a Ffioedd yn anelu at ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr gyrraedd eu potensial llawn. (Yn cysylltu ag Atodiad B targed 27)

Mae buddsoddiadau'r Cynllun Ffioedd yn cefnogi'r myfyrwyr hyn mewn dwy ffordd:

- Drwy weithgareddau wedi'u targedu at grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch gyda'r bwriad o ehangu mynediad a gwella cyfraddau cadw.

- Trwy weithgareddau sydd ar gael i bob myfyriwr ond lle rhoddir sylw ychwanegol i anghenion penodol y myfyrwyr hynny o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i sicrhau bod yr holl rwystrau posibl i fynediad yn cael eu dileu a lle mae'r buddion posibl i fyfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch yn cael eu pwysleisio. Mae rhai gweithgareddau hefyd ar gael i bob myfyriwr, ond bod myfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol yn fwy tebygol o'u mynychu/defnyddio (e.e. gweithgareddau ein Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr).

**5.7 Ymgyrraedd yn Ehangach**
Fel rhan o'n gwariant arfaethedig ar hyrwyddo mynediad ehangach a thecach i addysg uwch (Amcan A1), byddwn yn parhau i fuddsoddi yng ngwaith y rhaglen bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach, trwy ein cynlluniau rhaglen hyd at 2020/21.

Trwy ein Cynllun Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach 2018/19 i 2020/21, rydym wedi nodi rhaglen o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar y grwpiau canlynol:

- Pobl ifanc ôl-16 yn ein rhanbarth, yn canolbwyntio ar y rhai sydd yn 2 gwintel isaf Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru ar lefel ysgol ac Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA)
- Oedolion heb gymhwyster Lefel 4 (gan ddarparu dilyniant i ddarpariaeth Lefel 4 ac uwch)
- Plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru, ymadawyr gofal a gofalwyr ifanc.

Mae Cynlluniau'r Rhaglen yn cynnwys ystod o weithgareddau, gan gynnwys:
- Gwaith cyn mynediad i'r Brifysgol gyda phlant sy'n derbyn gofal
- Cefnogaeth ychwanegol ar Ddiwrnodau Agored ac Ymweld i rai o gefndiroedd Ehangu Mynediad
- Gwaith wedi'i dargedu i ddenu grwpiau Ymgyrraedd yn Ehangach i'n rhaglen flaenllaw Prifysgol Haf
- Diwrnodau cyfoethogi ac ymweliadau ysgol i ysgolion targed
- Cefnogaeth i brofiad Bagloriaeth Cymru mewn ysgolion targed
- Gweithio i gynorthwyo â phontio o'r uwchradd i AU.

Trwy gydol y Cynllun Mynediad a Ffioedd hwn, pan fo gwaith yn cael ei gefnogi'n rhannol neu'n gyfan gwbl trwy ein rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach, byddwn yn nodi hynny.

Trwy ein cynlluniau Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach, byddwn yn cydweithio'n agos â phartneriaid sefydliadau AU a phartneriaid lleol sy'n gweithio gydag addysg ôl-14, gyda'r bwriad o chwalu'r rhwystrau i AU a chodi uchelgais addysgol a llwyddiant i bobl mewn grwpiau blaenoriaeth. Bydd gweithgarwch Ymgyrraedd yn Ehangach wedi'i dargedu'n drwm ar gyfer grwpiau penodol anodd eu cyrraedd, tra bydd gweithgareddau ehangu mynediad mwy cyffredinol ac i ysgolion yn darparu ar gyfer carfan ehangach. Drwy hynny darperir ar gyfer darpar fyfyrwyr nad ydynt o bosibl yn dod o fewn y categorïau anghenion penodol a nodwyd gan Ymgyrraedd yn Ehangach.

## 5.8. Sut byddwn yn mesur llwyddiant

Rydym wedi ymrwymo i gael adolygiad cadarn o'n Cynllun Mynediad a Ffioedd. Caiff y gweithgareddau sydd yn y Cynllun Mynediad a Ffioedd eu hadrodd yn rheolaidd i Bwyllgorau'r Brifysgol, a llawer ohonynt yn is-bwyllgorau i'n Gweithrediaeth, Senedd neu Gorff Llywodraethol:

| *Gweithgarwch y Cynllun Ffioedd* | *Y pwyllgor sy'n gyfrifol* |
|---|---|
| Ehangu mynediad | Pwyllgor Marchnata a Denu Myfyrwyr |
| Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau | Grŵp Ffioedd ac Ysgoloriaethau |
| Y Gymraeg | Grŵp Gweithredol y Gymraeg<br>Pwyllgor Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg |
| Profiad y myfyrwyr | Pwyllgor Profiad y Myfyrwyr |
| Addysgu dan arweiniad technoleg | Grŵp Addysgu trwy Gyfrwng Technoleg |

Yn ogystal, rydym wedi sefydlu Grŵp Monitro'r Cynllun Mynediad a Ffioedd, a'r grŵp hwnnw'n cynnwys cynrychiolaeth o Weithrediaeth y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Mae hwn yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn i fonitro cynnydd gweithgarwch a'r gwariant. Mae gan y grŵp hefyd fandad i adolygu a yw'r gweithgareddau yr ydym yn eu cynnwys yn ein Cynlluniau Mynediad a Ffioedd yn effeithiol i gyflawni amcanion y Cynllun o chwalu'r rhwystrau i fynediad, cefnogi myfyrwyr i lwyddo a gwella profiad myfyrwyr. Rhaid i'r Grŵp Monitro lunio adroddiad i fod ar gael i'n Gweithrediaeth a'n Corff Llywodraethol ar gynnydd gweithgarwch ein Cynllun Mynediad a Ffioedd a'u heffeithiolrwydd, er mwyn bwydo i mewn i adolygiad blynyddol ar flaenoriaethau Cynllun Mynediad a Ffioedd. Mae ein corff llywodraethu hefyd yn derbyn ein Datganiad Monitro Blynyddol ar y Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, sy'n cynnwys sicrwydd ynghylch cydymffurfio ag amcanion y cynllun ffioedd a lefelau ffioedd.

Wrth fonitro llwyddiant ein Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, bydd y grŵp yn ystyried:

- Cynnydd tuag at y targedau sydd mewn cynlluniau olynol.
- Y metrigau sydd yn adran 5.6 uchod, gan geisio gweld a yw'r gweithgareddau a gefnogir gan y Cynllun Mynediad a Ffioedd yn cael effaith gadarnhaol ar y grwpiau a nodwyd sydd i'w cefnogi ganddo. Caiff rhai o'r metrigau hyn eu meincnodi yn erbyn perfformiad sefydliadau AU eraill yng Nghymru neu'r Deyrnas Unedig.
- Adborth gan fyfyrwyr trwy ein holiaduron gwerthuso modiwlau, arolygon mewnol a chasglu data eraill gan fyfyrwyr (e.e. arolwg NSS), gan gynnwys sylwadau testun sy'n ymwneud â gweithgareddau a gefnogir trwy'r Cynllun Mynediad a Ffioedd.

I gyd-fynd â'r data a gesglir, bydd tystiolaeth adfyfyriol gan yr aelodau allweddol o staff hynny sy'n ymwneud ag arwain gweithgareddau'r Cynllun Mynediad a Ffioedd yn ogystal â chan swyddogion Undeb y Myfyrwyr.

**Amcanion a Darpariaeth**

Os bydd incwm ffioedd yn is, efallai y bydd yn effeithio ar y pethau y gellir eu cyflawni**.**

### A) Mesurau i gynorthwyo unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch a sicrhau Cydraddoldeb Cyfle

*1) Hyrwyddo mynediad tecach at addysg uwch, codi dyheadau addysgol a helpu i baratoi myfyrwyr o grwpiau wedi'u tangynrychioli ar gyfer addysg uwch.*

**Prifysgol Haf Aberystwyth**

**(yn cysylltu â chynlluniau Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach Aberystwyth)**

Yn ystod 2019/20 caiff ein rhaglen Prifysgol Haf ei hadolygu, gan adeiladu ar ymchwil a wnaed ar bymtheg mlynedd cyntaf y cynllun hwn sydd â hanes llwyddiannus o godi dyheadau a hyder ymhlith myfyrwyr nad oes ganddynt hanes teuluol o fynychu addysg uwch. Ystyrir modelau cyflenwi newydd posibl a gosodir targedau ar gyfer 2020/21. Mae'r cynllun yn bodoli ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru o gymdogaethau cyfranogiad isel neu o gefndir gofal, ond rhoddir ystyriaeth hefyd i grwpiau blaenoriaeth eraill, gan gynnwys myfyrwyr o deuluoedd incwm isel, grwpiau ethnig heb gynrychiolaeth ddigonol, a myfyrwyr sy'n datgan anabledd.

**Gweithgareddau i godi dyheadau (yn cysylltu â chynlluniau Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach Aberystwyth)**

Bydd incwm Mynediad a Ffioedd yn parhau i gefnogi ein gwaith mewn ysgolion yn ehangu mynediad a chael cynhwysiant cymunedol. Bydd cydweithio agos â phartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach y Gogledd a'r Canolbarth (drwy'r cynllun strategol tair blynedd) yn parhau i ychwanegu gwerth at y gweithgareddau hyn a chodi dyheadau mewn grwpiau nad ydynt yn cael sylw yng nghronfeydd canolog y bartneriaeth.

Yn ogystal â gweithio'n agos gyda'r bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach, mae gan Aberystwyth ymrwymiadau i Ymgyrraedd yn Ehangach trwy ei Gynlluniau Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach ei hun ar gyfer 2018/19 i 2020/21. Fel rhan o Gynllun Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach Aberystwyth rydym wedi ymrwymo i ystod o weithgareddau allgymorth yng Nghymru, gan gynnwys rhaglenni Addysg Oedolion yn y gymuned, gweithdai dydd a phreswylfeydd wedi'u targedu at bobl ifanc a nodwyd i fod mewn perygl o gyflawniad isel, cynnal sesiynau Cyngor ac Arweiniad penodol mewn ysgolion a cholegau i helpu cyfranogwyr i wneud penderfyniadau hyderus am eu dyfodol, a Diwrnodau Cyfoethogi.

Bydd cronfeydd y Cynllun Ffioedd yn cyfrannu at godi dyheadau myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch, gan annog plant i ystyried addysg uwch fel dewis posibl.

Bydd hyn hefyd yn cynnwys oedolion yng Nghymru nad oes ganddynt gymhwyster lefel 4 neu uwch ac yn cynnwys cyngor ac arweiniad, yn ogystal â chyrsiau meithrin hyder camau cyntaf.

**Cefnogaeth i ymadawyr gofal, plant sy'n derbyn gofal, Gofalwyr Ifanc cydnabyddedig a phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio/heb gefnogaeth/yn annibynnol (Cynlluniau Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach Aberystwyth)**

I fyfyrwyr o gefndir gofal, gofalwyr ifanc, a myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio o'u teuluoedd, byddwn yn cynnig mynediad at gefnogaeth a chymorth o'r cyfnod cyn ymgeisio (gan gynnwys blaenoriaeth i'n rhaglenni preswyl a chefnogaeth mewn Diwrnodau Agored a Diwrnodau Ymweld) a thrwy'r broses ymgeisio, ynghyd â chefnogaeth wrth gyrraedd (gyda phobl benodol yn helpu myfyrwyr i ymgartrefu) a chefnogaeth barhaus trwy eu gyrfa yn y brifysgol.

Mae ein Bwrsariaethau Ymadawyr Gofal (a grwpiau cysylltiedig) yn cynnig cymorth ariannol i leddfu'r pwysau ar fyfyrwyr sydd yn aml heb lwybrau cymorth eraill.

**Blynyddoedd Sylfaen**

O fis Medi 2019, rydym yn bwriadu cynyddu nifer y graddau hynny sydd â mynediad drwy Flwyddyn Sylfaen sydd ar gael fel llwybrau ychwanegol i'n cynlluniau presennol. Mae gradd sydd â blwyddyn sylfaen yn offeryn gwerthfawr mewn AU ar gyfer ehangu mynediad er mwyn galluogi myfyrwyr sy'n dymuno dilyn gradd ond a allai fod heb y cymwysterau angenrheidiol i feithrin eu sgiliau mewn blwyddyn ragarweiniol. Mae ystod o fodiwlau ar sgiliau astudio wedi'u cynnwys yn y flwyddyn sylfaen ac rydym yn buddsoddi yn natblygiad hyn i sicrhau ei fod wedi'i deilwra i anghenion y myfyrwyr hyn wrth fagu hyder a gwneud y mwyaf o'u llwyddiant wrth symud ymlaen. Yng nghylch 2020/21 byddwn yn adolygu llwyddiant y fenter hon gyda'r bwriad o barhau i wella'r cynlluniau hyn.

**Sgyrsiau Ysgolion Aber mewn ardaloedd difreintiedig (yn cysylltu â chynlluniau Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach Aberystwyth)**

Mae ein staff Cyswllt Ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i roi sgyrsiau a chynnal gweithdai i fyfyrwyr, athrawon ac ymgynghorwyr ar amrywiaeth o bynciau'n gysylltiedig â phrifysgol, er mwyn sicrhau bod myfyrwyr o bob cefndir yn gallu manteisio ar yr wybodaeth a'r offer sydd eu hangen arnynt i wneud y dewisiadau cywir am Addysg Uwch, gan geisio ymgysylltu yn benodol â myfyrwyr sydd y cyntaf yn eu teulu i fynd i'r Brifysgol neu, am ryw reswm arall, nad oes ganddynt yr un cyfalaf cymdeithasol â'u cyd-ddisgyblion. Mae'r tîm yn gweithio i helpu myfyrwyr i ddeall proses UCAS a llywio drwy'r daith gymhleth o ddewis ac ymgeisio i brifysgolion, gan gynnig cyngor ar ffynonellau cyllid a helpu i ddrafftio datganiadau personol. Mae sesiynau ffug-gyfweliadau yn helpu myfyrwyr i feithrin eu hyder ac mae sgyrsiau ar reoli arian yn helpu i chwalu rhwystrau ariannol. Y nod yw sicrhau nad oes unrhyw fyfyriwr dan anfantais ar y cam ymgeisio oherwydd ddiffyg mynediad at wybodaeth neu gymorth. Mae ymgeiswyr yn derbyn esboniad am Dderbyniadau wedi'u Targedu, sef rhoi cynigion is i fyfyrwyr o Ysgolion Llwybr yng Nghymru ac o'r 40% ysgol isaf sy'n perfformio waethaf yng ngweddill y Deyrnas Unedig.

**Canlyniadau a fwriedir**

Ein nod yw y bydd y cynlluniau yn cyfrannu at yr amcanion ehangu mynediad a gyflwynir yn y Cynllun hwn drwy:

- Meithrin hyder y cyfranogwyr ac ychwanegu at eu setiau sgiliau, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn symud ymlaen i addysg uwch neu bellach neu fynd i'r gweithle.

- Cyfrannu at berfformiad y Brifysgol wrth recriwtio o grwpiau y cydnabyddir eu bod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch, gan gynnwys cymdogaethau cyfranogiad isel, myfyrwyr o gefndir gofal, dysgwyr aeddfed.
- Cyfrannu at gadw myfyrwyr o gefndir gofal rhag gadael yn gynnar yn y flwyddyn academaidd – mae'r buddsoddi mewn cefnogaeth i ymadawyr gofal wedi'i gynllunio i'w helpu nhw i ymgartrefu ym mywyd y Brifysgol a lleihau'r potensial i dynnu'n ôl yn y cyfnod trosglwyddo yn gynnar ym mlwyddyn y Brifysgol.

*2) Gwella'r gyfradd cadw myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch a chefnogi eu cynnydd a'u cwblhau, drwy ddarparu cefnogaeth academaidd, lles ac ariannol o safon uchel.*

**Cymorth Ariannol**

Mae ein rhaglen bwrsariaethau a gwobrau yn hanesyddol wedi'i thargedu i gefnogi ehangu mynediad a llwyddiant myfyrwyr i sicrhau, cyn belled ag y bo'n bosibl, gydraddoldeb cyfle i bob darpar fyfyriwr. Mae ein rhaglen fwrsariaeth wrthi'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd a rhoddir gwybod beth yw'r penderfyniad am ffurf a ffocws penodol y gefnogaeth o 2020 ymlaen trwy ein gwefan bwrsariaethau a llwybrau cyfathrebu eraill, ond bydd ein blaenoriaeth yn parhau i fod ar grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Rydym yn adolygu ein darpariaeth bwrsariaethau yn rheolaidd i sicrhau bod bwrsariaethau'n cael eu cynnig i'r myfyrwyr hynny sydd fwyaf agored i galedi yn ystod eu hastudiaethau a'u hasesu ar sail angen ac a yw myfyrwyr yn gallu cael gafael ar lefelau gwahaniaethol o gymorth cynnal gan awdurdodaeth ddatganoledig neu ffynonellau awdurdodau lleol.

Mae'r cymorth bwrsariaeth yn rhan o becyn cyffredinol wedi'i dargedu i fynd i'r afael â'r risg o fyfyrwyr o ardaloedd incwm isel neu ardaloedd â chyfranogiad isel, a grwpiau blaenoriaeth eraill, yn peidio â pharhau.

**Cronfeydd Caledi**

I ategu ein gweithgareddau ehangu mynediad rydym ni'n ymrwymo i ddarparu cymorth i'r rheini sy'n cael anawsterau ariannol yn ystod eu cyfnod yn y Brifysgol. I'r perwyl hwn, byddwn yn parhau i ddarparu cronfa caledi sydd â'r nod o roi cymorth i fyfyrwyr sy'n cael trafferthion ariannol oherwydd amgylchiadau academaidd, personol neu deuluol. Mae hyn ar ffurf grantiau i ategu unrhyw ddiffyg rhwng incwm a threuliau hanfodol, grantiau tymor byr i fyfyrwyr sy'n dioddef o oedi wrth dderbyn cyllid myfyrwyr neu drwy "roi credyd ar gerdyn Aber" ar gyfer sefyllfaoedd brys lle mae myfyrwyr yn cael eu hunain heb arian am fwyd. Mae'r gronfa yn arbennig o berthnasol i fyfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig neu fyfyrwyr sydd wedi ymddieithrio o'u teuluoedd/o gefndir gofal, neu fyfyrwyr sy'n ofalwyr ifanc etc nad oes ganddynt gefnogaeth deuluol i droi ato yn ystod argyfwng ariannol neu drafferthion. Heb y gronfa hon, gallai myfyrwyr fel arall ystyried gadael y Brifysgol neu chwilio am gyfleoedd gwaith a allai amharu ar eu cynnydd academaidd.

**Cyngor Ariannol**

Byddwn yn parhau i gefnogi Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth a Chyllid sy'n gweinyddu cronfa Caledi Myfyrwyr y Brifysgol ac yn rhoi ystod o gyngor a gwybodaeth i fyfyrwyr drwy sesiynau cynghori 'galw heibio' a thros y ffôn ac e-bost.

**Cymorth Lles a Hygyrchedd**

**Cymorth Hygyrchedd**

Mae gwasanaethau cymorth arbenigol yn ategu'r uchod. Mae ein Gwasanaeth Hygyrchedd yn cydlynu anghenion cymorth/addasiadau rhesymol myfyrwyr anabl, myfyrwyr sydd â chyflwr iechyd cronig a gwahaniaethau dysgu penodol, ac mae'r Gwasanaeth wrthi'n adeiladu arbenigedd ar gefnogi myfyrwyr trawsryweddol. Wedi'i gynnwys yn y gwasanaeth hwn mae'r gefnogaeth un-i-un a roddir i fyfyrwyr anabl trwy'r Lwfans Myfyrwyr Anabl a oedd ym mis Chwefror 2019 wedi cael sgôr achredu o 98.85% trwy Fframwaith Sicrhau Ansawdd (QAF) y Lwfans Myfyrwyr Anabl.

Yn ogystal â'r Gronfa Caledi mae'r Brifysgol hefyd yn neilltuo swm ar gyfer cefnogaeth un-i-un i fyfyrwyr anabl nad ydynt yn gymwys i gael y Lwfans Myfyrwyr Anabl neu sy'n aros am benderfyniad ynghylch eu cymhwysedd i gael y Lwfans. Mae'r gronfa hon yn galluogi myfyrwyr i dderbyn ystod o gymorth galluogi (fel mentor neu diwtor arbenigol) dros dro neu dymor hwy, gan gefnogi eu cynnydd a'u cyrhaeddiad.

I fyfyrwyr sy'n credu y gallent fod yn ddyslecsig, ond sy'n poeni am gost talu am Asesiad llawn gan Seicolegydd Addysg, mae Gwasanaeth Hygyrchedd y Brifysgol yn darparu sgrinio un-i-un yn rhad ac am ddim. Mae canlyniad hwn yn galluogi myfyrwyr i wneud penderfyniad hyddysg ynghylch a ddylid symud ymlaen i asesiad llawn a allai hwyluso mynediad at ystod o addasiadau rhesymol, a hynny yn ei dro yn cefnogi aros a chwblhau cwrs.

**Cymorth Iechyd Meddwl**

Ar yr un pryd â sicrhau nad yw'n dyblygu darpariaeth statudol, mae ein Gwasanaeth Lles Myfyrwyr yn rhoi cefnogaeth i fyfyrwyr sydd â diagnosis o gyflwr iechyd meddwl parhaus neu sy'n cael problemau emosiynol/seicolegol tymor byr mewn cysylltiad â bywyd myfyriwr. Yn ogystal â sesiynau un-i-un gydag ymarferydd neu gwnselydd iechyd meddwl cymwys, mae'r Gwasanaeth hefyd yn cynnal amryw o weithdai i fyfyrwyr ar themâu cyffredin megis teimlo'n ddi-hwyl / rheoli newid / straen arholiadau, yn ogystal â chefnogi staff yn eu rhyngweithio â myfyrwyr mewn trallod. Mae'r Gwasanaeth yn cydweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Triniaeth yn y Cartref i Ddatrys Argyfwng yn Awdurdod Iechyd Hywel Dda i sicrhau bod myfyrwyr sydd wedi mynd drwy argyfwng yn cael gwasanaeth di-dor ar ôl dychwelyd i'r Brifysgol.

Ffocws y gwasanaethau hyn yw cefnogi rhagoriaeth academaidd wrth hyrwyddo datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, er mwyn i'n myfyrwyr adael y brifysgol gyda phecyn o sgiliau a chymwyseddau ar gyfer eu bywyd ar ôl graddio.

Hysbysebir y gwasanaethau hyn trwy sgyrsiau â myfyrwyr newydd, presenoldeb mewn diwrnodau agored, Ffeiriau'r Glas, llawlyfrau myfyrwyr ac mewn amryw o ddigwyddiadau o amgylch y campws.

**Cyfle ymgyfarwyddo i fyfyrwyr sydd ag Asperger/Awtistiaeth**

Byddwn yn parhau i gefnogi'r digwyddiad ymgyfarwyddo deuddydd i ddarpar fyfyrwyr sydd ag Asperger/awtistiaeth a'u teuluoedd, er mwyn cynorthwyo â phontio'n rhwydd i fywyd prifysgol. Mae hyn yn rhan o'n gwaith i sicrhau cydraddoldeb cyfle i fyfyrwyr sydd ag anghenion cymorth penodol, sy'n aml yn gymhleth, i sicrhau eu bod yn dal i allu dangos eu gallu a chyflawni eu potensial.

Rydym yn bwriadu dyblygu'r dull hwn i gynnwys achlysur ymgyfarwyddo ar gyfer myfyrwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl.

## Cefnogaeth Academaidd

### Cynllun Mentora Cyd-fyfyrwyr

Gan weithio'n agos gydag Undeb y Myfyrwyr mae'r Brifysgol wedi sefydlu cynllun mentora cyd-fyfyrwyr ledled y Brifysgol. Mae hyn yn ychwanegol at ein cynlluniau Mentora Arwyddbost sy'n bodoli eisoes (sy'n bennaf yn rhoi cefnogaeth i fyfyrwyr o grwpiau wedi'u tangynrychioli e.e. ymadawyr gofal/myfyrwyr wedi ymddieithrio) a'n cynlluniau mentora arbenigol sy'n cefnogi myfyrwyr sydd â phroblemau cyfathrebu cymdeithasol a phroblemau iechyd meddwl. Yn ogystal â darparu mecanwaith cymorth ychwanegol i fyfyrwyr, mae'r cyfleoedd mentora hefyd yn cynorthwyo mentoriaid sy'n fyfyrwyr i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd trosglwyddadwy.

### Hyb Sgiliau Aber

Byddwn yn parhau i ddatblygu a chynnal Hyb Sgiliau Astudio ar-lein, sydd wedi'i ddatblygu drwy'r Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr. Mae'r Hyb yn cynnig mynediad i fyfyrwyr at amrywiaeth o wybodaeth datblygu sgiliau cyn cyrraedd y Brifysgol a thrwy gydol eu blwyddyn gyntaf (ysgrifennu traethawd, sgiliau cyflwyno, cyfeirnodi ac ati). Y nod yw helpu myfyrwyr i baratoi ar gyfer llwyddo. Caiff cyswllt â'r Hyb ei annog drwy amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu â myfyrwyr, gan gynnwys Gwybodaeth Wythnos Groeso, cyngor y Gwasanaethau Gwybodaeth, llawlyfrau a chyngor gan yr Adrannau a'r system tiwtor personol. Mae'r Hyb yn cynnal hyfforddiant ac yn rhoi cefnogaeth ar sut i osgoi Ymarfer Academaidd Annheg a Llên-ladrad.

Yn benodol, bydd yr Hyb yn helpu i fynd i'r afael â'r broblem o fyfyrwyr yn peidio gofyn am help gyda sgiliau oherwydd stigma ac embaras. Caiff defnydd o'r Hyb Sgiliau ei fonitro drwy ystadegau a ddarperir gan dimau System Rheoli Cynnwys a Blackboard AberDysgu. Mae Hyb Sgiliau Aber yn benodol yn mynd i'r afael ag anghenion y myfyrwyr hynny o gymdogaethau cyfranogiad isel neu sydd y cyntaf o'u teulu i fynd i'r Brifysgol, yn ogystal â darparu cymorth ychwanegol i'r myfyrwyr hynny a ddaeth i'r brifysgol ar dariff isel ac/neu gyda chymhwyster anhraddodiadol ac a allai fod angen help i wella eu perfformiad.

### Canlyniadau a fwriedir

Ein nod yw y bydd y cynlluniau yn cyfrannu at yr amcanion ehangu mynediad a gyflwynir yn y Cynllun hwn drwy:

- Leihau'r risg y bydd angen i fyfyrwyr o gefndiroedd incwm isel dynnu'n ôl o'u hastudiaethau oherwydd caledi ariannol, neu bydd angen iddynt gymryd gwaith ychwanegol â thâl a allai ymyrryd â'u llwyddiant academaidd.

- Darparu rhwyd ddiogelwch ychwanegol i'r myfyrwyr hynny nad ydynt efallai'n syrthio i grŵp gwarchodedig ond a allai fod mewn angen. Rydym yn cydnabod y gall unrhyw fyfyriwr, o ganlyniad i amgylchiadau penodol, gael ei hun mewn angen ac rydym yn ceisio bod yn hyblyg i helpu myfyrwyr ar sail angen unigol.
- Darparu sgiliau ymarferol i fyfyrwyr nad ydynt efallai wedi dysgu cyllidebu etc cyn dod i'r brifysgol.
- Cael gwared ar rwystrau corfforol i fynediad fel nad yw myfyrwyr ag anabledd dan anfantais. Gwella canlyniadau dysgu i fyfyrwyr sydd ag anghenion mynediad a gostwng y nifer sy'n gadael/tynnu'n ôl.
- Mae rhai meysydd darpariaeth, e.e. rhaglenni mentora, yn agored i bob myfyriwr, ond maent yn aml yn fwy perthnasol i fyfyrwyr o grwpiau ehangu mynediad sy'n flaenoriaeth. Rydym am sicrhau nad oes unrhyw fyfyriwr yn cwympo trwy rwyd cefnogaeth ac, er ein bod yn teilwra rhai gweithgareddau i anghenion penodol myfyrwyr o gyfranogiad isel a chefndiroedd blaenoriaeth eraill, mae rhai o'r cynlluniau hyn yn parhau i fod ar agor yn ehangach, er mwyn sicrhau ein bod yn dal pob myfyriwr sydd mewn angen.

*3) Gwella'r profiad addysg uwch i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.*

**Gwaith ystadau i wella hygyrchedd**

Mae mannau croesawgar, hygyrch yn holl bwysig i hyrwyddo llwyddiant myfyrwyr o grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol. Rydym wedi ymrwymo i barhau i wella mynediad i'n hystad ar gyfer myfyrwyr, staff ac ymwelwyr ac i sicrhau nad yw ein myfyrwyr yn dod ar draws unrhyw rwystrau corfforol rhag cael mynediad i addysg yn ogystal â sicrhau bod y mannau hyn yn groesawgar ac yn gyfforddus i astudio ynddynt. Mae ein gwaith ystadau yn cefnogi cwricwlwm cynhwysol, gan gynnwys recordio darlithoedd yn rheolaidd a dolenni clyw, gan alluogi myfyrwyr sydd ag ystod eang o anghenion corfforol a dysgu i gael mynediad at eu deunyddiau astudio pryd bynnag a sut bynnag sy'n gweddu orau i'w hanghenion penodol. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith hygyrchedd i gynorthwyo â hyn.

**Grant Undeb Myfyrwyr Aber**

Yn ogystal â'r gwasanaethau cymorth a gynigir drwy'r Brifysgol, gall myfyrwyr gael cymorth drwy Undeb y Myfyrwyr, gan gynnwys y Gwasanaeth Cynghori llinell flaen, gwasanaeth 'Nawdd Nos' sy'n rhoi cyngor i gydfyfyrwyr, a chymorth academaidd drwy gefnogaeth mwy na 300 o gynrychiolwyr cwrs ac adran.

Byddwn yn gweithio i sicrhau ein bod yn dilyn arfer gorau a chanllawiau CCAUC wrth gyllido Undeb y Myfyrwyr i sicrhau ei fod yn gallu cynorthwyo myfyrwyr a chyfrannu'n effeithiol at ddatblygu profiad myfyriwr rhagorol yn Aberystwyth.

**Canlyniadau a fwriedir**

Ein nod yw y bydd y cynlluniau yn cyfrannu at yr amcanion ehangu mynediad a gyflwynir yn y Cynllun hwn drwy:

- Leihau'r rhwystrau corfforol i addysg ar gyfer myfyrwyr ag anableddau, buddsoddi mewn gwaith ystadau a fydd yn llwyddo iddynt hwy.

- Sicrhau nad yw unrhyw fyfyriwr yn teimlo eu bod am adael/tynnu'n ôl o'u haddysg ar sail teimlo nad oes croeso iddynt, a bod ein holl fyfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn hyderus.
- Profiad Addysg Uwch mwy cyfartal, cefnogol a chynhwysol.
- Mae grant Undeb y Myfyrwyr yn cefnogi pob myfyriwr, ond mae'r gwasanaethau cymorth ac ymgyrchu a ddaw gyda'r elfen yn y rhan hon o'r Cynllun Mynediad a Ffioedd o fwy o fudd i fyfyrwyr mewn grwpiau lle gallai'r risg o dynnu'n ôl fod yn uwch. Rydym yn falch o'r gwaith y mae Undeb ein Myfyrwyr yn ei wneud i godi llais myfyrwyr ac ymgyrchu dros eu hawliau, ac mae ein cynrychiolwyr academaidd yn gweithio'n galed i sicrhau bod hyd yn oed y myfyriwr lleiaf hyderus yn gallu lleisio eu llais.

*4) Cefnogi myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i fynd yn eu blaenau i gyflogaeth neu astudio pellach*

**Annog a galluogi myfyrwyr o gefndir Ehangu Cyfranogiad i ymgysylltu â Rhaglenni Cyflogaeth, gartref a thramor**
Yn sgil cynnydd o 10% yn nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru ar gyfer rhaglenni blwyddyn mewn diwydiant rhwng 2018/19 a 2019/20, rhagwelir cynnydd pellach sydd angen ei gefnogi. O ddata TrywyddGyrfa a godwyd yn 2018/19, nodir bod canran y myfyrwyr o gefndiroedd Ehangu Cyfranogiad sydd wedi cymryd rhan mewn profiadau tramor yn hanner hynny ar gyfer y garfan ehangach o fyfyrwyr. Hefyd, mae canran ychydig yn uwch o'r rhai o gefndiroedd Ehangu Cyfranogiad heb gael unrhyw brofiad gwaith o gwbl. Yn ogystal, mae canran y myfyrwyr sydd wedi datgan anabledd nad ydynt wedi cael unrhyw brofiad gwaith blaenorol yn sylweddol uwch nag ar gyfer gweddill y garfan. Mae hyn yn tynnu sylw ymhellach at yr angen i nodi a thargedu'r myfyrwyr penodol hyn gyda gweithgareddau a fydd yn eu hannog a'u cefnogi i fynd i'r afael ag opsiynau fel hyn. Prif ffocws 2020/21 fydd gweithio un-i-un gyda'r myfyrwyr hyn i ganfod ac asesu amrywiaeth o gyfleoedd a pharatoi'r myfyrwyr i wneud ceisiadau effeithiol am yr opsiynau hyn. Bydd mwyfwy o ffocws ar ganfod a hyrwyddo interniaethau haf, cyfleoedd astudio dramor a'r amryw wobrau teithio a gynigir gan y Brifysgol.

Wrth ddal ati i gyflwyno cynnwys modiwl CD20110 i baratoi myfyrwyr i gystadlu'n llwyddiannus am leoliadau Cynllun Blwyddyn mewn Diwydiant / Blwyddyn mewn Cyflogaeth ac i gydnabod y cynllunio sy'n ofynnol i baratoi at fyd gwaith, byddwn yn targedu nifer fwy o adrannau academaidd wrth i'w blwyddyn mewn diwydiant ddechrau a symud ymlaen. Trwy uno elfennau o hyn gyda'r dull a gymerwyd gan Aber+, y nod yw cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan sydd â gwahaniaethau datganedig ac sydd o gefndiroedd ehangu mynediad. Mae'r modiwl sgiliau blwyddyn mewn diwydiant yn agored i bawb, ond ein profiad ni yw bod y ddarpariaeth hon o fudd arbennig i fyfyrwyr sydd o bosibl wedi dod i'r brifysgol â chyfalaf cymdeithasol isel neu heb lawer o ddyheadau i weithio dramor. Rydym yn gallu targedu negeseuon i apelio'n benodol at fyfyrwyr o grwpiau blaenoriaeth y Cynllun Mynediad a Ffioedd, a bydd cynlluniau fel Cynllun Haf AberYmlaen yn canolbwyntio ar y rheini sydd ag ychydig neu ddim profiad gwaith (categori y mae canran uwch o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn perthyn iddo).

Bydd Cynllun Haf AberYmlaen yn parhau i ganolbwyntio ar y rheini sydd ag ychydig neu ddim profiad gwaith. Gan fod canran uwch o grwpiau heb

gynrychiolaeth ddigonol yn y categori hwn, rhoddir blaenoriaeth iddynt hwy ymgysylltu â'r cynllun.

Byddwn yn gwella'r hyrwyddo ar y Cynllun Blwyddyn mewn Cyflogaeth er mwyn sicrhau y gall myfyrwyr o ddisgyblaethau nad ydynt yn cynnig blwyddyn integredig mewn diwydiant hefyd elwa o'r profiad pwysig hwn. Yn ogystal â chefnogaeth unigol gan ymgynghorwyr gyrfa i fyfyrwyr a nodwyd, rhoddir mwy o bwyslais ar hyrwyddo swyddi gwag a defnyddio ApAber i ledaenu cyfleoedd.

Os bydd tanysgrifiad yn parhau i GoingGlobal, yna bydd gwell hyrwyddo ar y cyfleoedd rhyngwladol a gynigir ar y porth hwn hefyd yn cael ei fwydo i'r gweithgareddau paratoi a hyrwyddo a nodwyd uchod.

Enghraifft gyfredol o gydweithio yw Cynllun Aber+. Mae'r cynllun hwn yn gydweithrediad rhwng Gwasanaeth Hygyrchedd a Gwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol er mwyn cefnogi myfyrwyr anabl (yn enwedig y rheini sydd â materion cyfathrebu cymdeithasol fel Syndrom Asperger) wrth iddynt ymgysylltu â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd. Bydd dull Aber+ o weithredu, sef cynnal gweithgareddau yn amgylchedd cyfarwydd adrannau academaidd, yn cefnogi ac yn cynyddu ymgysylltiad y rheini sydd wedi datgelu anableddau; caiff hyn ei ehangu i adrannau academaidd i gefnogi'r gwaith o baratoi myfyrwyr i wneud profiad gwaith sylweddol.

Mae llwyddiant cynllun GO Wales yn Aberystwyth yn benodol yn tynnu sylw at yr angen am gefnogaeth bwrpasol ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a'r rhai sydd fwyaf agored i fympwyon y farchnad cyflogaeth i raddedigion. Bydd cydweithredu agosach rhwng y Gwasanaeth Gyrfaoedd, y Gwasanaeth Hygyrchedd a'r Gwasanaeth Lles o dan faner Aber+ yn cynorthwyo pa mor gynaliadwy yw'r gwasanaethau hyn o ystyried yr ansicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer GO Wales o 2022.

**Targedu cefnogaeth gyrfaoedd at fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol**

Cafwyd cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y myfyrwyr sy'n ymgysylltu â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd mewn ymyriadau sy'n hirach eu hyd – megis cyngor ar gyfweliadau ac apwyntiadau GO Wales (awr yr un), yn hytrach na gwasanaethau galw heibio byrrach a chyflymach; mae hyn yn dangos ymhellach bod angen parhau â'r gwasanaethau pwrpasol a gynigir i'n myfyrwyr yn hyn o beth, a'u gwella. Gyda phwyslais pellach yn cael ei roi ar ddarparu gwasanaethau i fyfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y mannau y maen nhw'n fwyaf cyfforddus yn ymgysylltu â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd, bydd adnoddau'n cael eu dyrannu'n briodol ar draws lleoliadau mwy amrywiol i annog gwell rhyngweithio.

Parhau fydd y gwaith i ymgorffori cydnabyddiaeth sgiliau yn y cwricwlwm ac i gynnwys Rhestr Wirio Sgiliau GraddedigionAber mewn ystod o weithgareddau yn ogystal ag o fewn cynnwys y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth tiwtora bersonol wedi'i chryfhau ac yn defnyddio'r Rhestr Wirio Sgiliau a Grid Cynllunio, gan gynnwys mewn modiwlau craidd ar ystod ehangach o ddisgyblaethau gradd, fel rhan integredig o'r modiwl CD20110 ac wrth ddarparu modiwlau ar-lein; bydd hyn oll yn elfennau a fydd yn cynyddu ymwybyddiaeth myfyrwyr o'u sgiliau er mwyn iddynt fedru mynegi'r rhain yn fwy effeithiol wrth gystadlu am swyddi graddedigion a gwneud cais am astudiaethau pellach.

**Gweithdai Llesiant a Meithrin Hyder**

I fyfyrwyr sydd, e.e. yn anabl, â phroblemau cyfathrebu cymdeithasol, neu fyfyrwyr sy'n cael problemau emosiynol/seicolegol, bydd y gweithgarwch datblygu sgiliau a ddarperir eisoes gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cael ei gryfhau drwy:

- Weithdai wedi'u cynnal gan y Gwasanaeth Lles ar faterion fel rheoli newid, pryder neu hwyliau isel neu hybu hyder.
- Datblygu sgiliau mewn meysydd fel rheoli amser a sgiliau trefnu, gan eu cyflwyno un-i-un yn ystod sesiynau mentora arbenigol neu sgiliau astudio arbenigol yn y Gwasanaeth Hygyrchedd
- Cynnig cyfleoedd profiad "gwaith" i fyfyrwyr sydd wedi'u recriwtio i fod yn fentoriaid adrannol cyd-fyfyrwyr neu'n fentoriaid y cynllun 'Ffordd Hyn' adrannol

**Canlyniadau a fwriedir**

Ein nod yw y bydd y cynlluniau yn cyfrannu at yr amcanion ehangu mynediad a gyflwynir yn y Cynllun hwn drwy:

- Feithrin hyder a sgiliau bywyd a gwaith, a gwella rhagolygon cyflogaeth myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

*5) Cefnogi'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac annog manteisio ar gyrsiau cyfrwng Cymraeg*

**Cefnogi'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg**

Trwy fuddsoddi mewn darpariaeth gyfrwng Cymraeg byddwn yn ceisio diogelu'r ddarpariaeth sydd eisoes ar gael yn ogystal â datblygu modiwlau pellach er mwyn gallu cynnig ystod mor eang â phosibl o feysydd pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn benodol, byddwn yn parhau i weithio i wella faint o ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael mewn pynciau STEM. Mae ein Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn rhoi cefnogaeth ymarferol i adrannau academaidd wrth ddatblygu modiwlau, cyrsiau a phrosiectau trwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â darparu'r adnoddau ar gyfer datblygu mwy o ddeunyddiau Cymraeg. Mae'r Ganolfan yn cefnogi defnydd ehangach o'r Gymraeg ledled y Brifysgol trwy weithdai a sesiynau dysgu byr gyda'r bwriad o gynyddu cyfran y staff sy'n gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog i'n myfyrwyr.

Mae ein Cynllun Cyfannol Strategol i'r Gymraeg (a gymeradwywyd yn 2015) yn alinio â ffrwd benodol iawn yn ein Cynllun Strategol newydd, ond mae'n rhedeg yn gyfochrog ac wedi'i alinio'n agos â'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu. Gellir gweld y Cynllun Cyfannol Strategol yn:

https://www.aber.ac.uk/cy/media/departmental/cwls/pdfs/CynllunCyfannolStrategoli'rGymraeg.pdf

Yn ogystal â'n buddsoddiadau ein hunain, rydym yn cydnabod gwaith gwerthfawr ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'r cyfleoedd a gyflwynir gan y Coleg, gan gynnwys cyfleoedd buddsoddi wedi'u hariannu gan y Coleg ar gyfer darpariaeth a staff newydd, ysgoloriaethau doethuriaeth a chymorth ar gyfer annog myfyrwyr i wneud y Dystysgrif Sgiliau Iaith y tu hwnt i'r myfyrwyr hynny a gyllidir drwy'r Coleg.

**Canlyniadau a fwriedir**

Ein nod yw y bydd y cynlluniau yn cyfrannu at yr amcanion ehangu mynediad a gyflwynir yn y Cynllun hwn drwy:

- Ehangu dwyieithrwydd Aberystwyth, gan sicrhau ein bod yn gallu cynnig mwy o ddarpariaeth academaidd a gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a hefyd y gallwn annog rhagor o fyfyrwyr i ddewis dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae buddsoddi mewn adnoddau addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg yn helpu i sicrhau bod mwy o ddeunydd Cymraeg ar gael mewn ystod ehangach o bynciau academaidd.

## B) Mesurau i Hyrwyddo Addysg Uwch

*1) Cefnogi a hyrwyddo llais y myfyrwyr.*

**Cefnogaeth i Undeb y Myfyrwyr**

Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith ein Hundeb Myfyrwyr i wella profiad myfyrwyr, gan gynnwys eu gwaith yn annog myfyrwyr i ymgysylltu â gweithgareddau allgyrsiol trwy gynnal gweithgareddau adloniant a chwaraeon a chymdeithasau eraill. Mae cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn yn cefnogi profiad y myfyrwyr mewn sawl ffordd, gan gynnwys gwella iechyd corfforol a meddyliol, cyfrannu at gyfraddau cadw trwy leihau teimladau o unigedd drwy greu cymunedau, meithrin sgiliau rhyngbersonol a magu hyder. Gall hyn oll gyfrannu at lwyddiant academaidd myfyrwyr yn ogystal â chyfrannu at eu hiechyd a'u lles cyffredinol. Mae ein hundeb myfyrwyr hefyd yn ysgogi ethos ymgyrchu, gan roi llais y myfyriwr wrth galon ei weithgareddau ac yn annog myfyrwyr i ymgysylltu'n llawn â'r Brifysgol, gan sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed a'u bod yn bartneriaid gyda'r Brifysgol yn eu haddysg.

**Dy Lais ar Waith – rhoi llais y myfyrwyr yn ganolog**

Byddwn yn parhau i ddarparu a datblygu amryw o wasanaethau yn ymwneud â llais y myfyriwr o dan yr ymbarél 'Dy Lais ar Waith'. Y nod yw darparu llwyfannau a fydd yn ein helpu i ymgysylltu â'n myfyrwyr i'w cael i gydweithio â ni i wella eu profiad myfyrwyr.

- Holiaduron Gwerthuso Modiwlau – mae'r rhain yn helpu myfyrwyr i ddylanwadu ar ddyluniad y cwricwlwm a ffurfio eu haddysg. Mae holiaduron i bob modiwl israddedig, gyda phob cydlynydd modiwl yn llunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r holiadur.

- Rho Wybod Nawr – mae hwn yn rhoi modd i fyfyrwyr roi adborth dienw i'r Brifysgol am unrhyw agwedd ar eu profiad myfyriwr. Mae tîm yn brysbennu ac yn dadansoddi'r wybodaeth ac yn cysylltu ag adrannau i sicrhau bod materion a godir yn cael eu dilyn.

- Dy Lais ar Waith – ymgyrch gyfathrebu sy'n amlinellu sut mae adborth myfyrwyr yn cael ei ddefnyddio i wella'r profiad dysgu ac addysgu.

- Cynrychiolwyr Academaidd Undeb y Myfyrwyr a Phwyllgorau Ymgynghori Staff-Myfyrwyr. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gydag Undeb y Myfyrwyr ar safoni'r system cynrychiolwyr a'r Pwyllgorau Ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys safoni ar etholiadau cynrychiolwyr, hyfforddiant, disgrifiadau rôl, ynghyd â chyfarfodydd, cofnodion ac agendâu'r Pwyllgorau Ymgynghori. Mae'r rhain yn rhoi modd cael deialog ar bob agwedd ar brofiad y myfyrwyr.

**Canlyniadau a fwriedir**

Ein nod yw y bydd y cynlluniau yn cyfrannu at yr amcanion Hyrwyddo Addysg Uwch a gyflwynir yn y Cynllun hwn drwy:

- Wella profiad y myfyrwyr trwy gynyddu llwyddiant academaidd ein myfyrwyr a chyfrannu at eu hiechyd a'u lles, a hynny'n arwain at gadw'r lefelau bodlonrwydd a chyfraddau isel gadael/tynnu'n ôl.
- Annog corff y myfyrwyr i ymgysylltu ar lefel uchel drwy ein cynlluniau adborth a'r cynlluniau cynrychiolaeth academaidd.

*2) Gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, gan gynnwys technolegau i wella'r profiad dysgu ac addysgu*

**AberDysgu, ApAber a Thechnolegau Dysgu eraill ar-lein**

Trwy'r ap symudol sydd gennym, o'r enw ApAber, byddwn yn parhau i gefnogi ehangu mynediad myfyrwyr at eu data eu hunain. Mae hwn wedi'i ddatblygu mewn ymateb i geisiadau myfyrwyr am fynediad haws at wybodaeth o ddydd i ddydd. Mae ApAber yn cefnogi etholiadau Undeb y Myfyrwyr ar gyfer pleidleisio am swyddogion Undeb y Myfyrwyr a Chynrychiolwyr Cwrs ac yn rhoi mynediad rhwydd at amserlenni Academaidd ac Arholiadau, balans CerdynAber, cofnodion presenoldeb, ymgysylltu â myfyrwyr a lleoliadau ystafelloedd addysgu. Byddwn yn parhau i esblygu'r ap mewn ymateb i adborth myfyrwyr.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn gwaith sy'n cyfoethogi'r amgylchedd addysgu a dysgu. Mae hyn yn cynnwys ein hamgylchedd dysgu rhithiol sy'n rhoi modd i'n dysgwyr gael mynediad at ystod eang o weithgareddau ac adnoddau dysgu, megis cyflwyniadau a dogfennau cwrs, cynnwys fideo/clyweledol (gan gynnwys recordiadau o ddarlithoedd) gweithgareddau ar-lein (e.e. profion, byrddau trafod) a rhestrau darllen. Mae'r Grŵp E-ddysgu, o fewn y Gwasanaethau Gwybodaeth, yn rhoi hyfforddiant a chymorth i staff i sicrhau bod mentrau Dysgu a Gyfoethogir gan Dechnoleg (TEL) yn adlewyrchu ymarfer gorau. Byddwn yn edrych ar y defnydd o feddalwedd pleidleisio yn y dosbarth i hyrwyddo dysgu gweithredol mewn lleoliadau darlithoedd a seminarau. Bydd hyn yn cynnwys rhoi cefnogaeth a hyfforddiant i staff i lunio gweithgareddau pleidleisio ynghyd ag archwilio opsiynau ar gyfer darparu meddalwedd pleidleisio yn ganolog.

Mae dysgu ar-lein yn cynnig agwedd fwy hyblyg at ddysgu i gefnogi cyfraddau cadw a chyflawni. Wrth ddefnyddio offer megis cipio darlithoedd, meddalwedd pleidleisio a gweithgareddau sy'n seiliedig ar amgylchedd dysgu rhithwir (VLE), gall staff academaidd ddefnyddio sesiynau wyneb yn wyneb fel cyfleoedd dysgu gweithredol yn hytrach na'u defnyddio i gyflwyno cynnwys.

Mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu, sydd yn y Gwasanaethau Gwybodaeth, yn cydweithio gyda chydweithwyr academaidd i sicrhau cysondeb ym mhrofiad y myfyrwyr o Ddysgu a Gyfoethogir gan Dechnoleg yn ogystal ag ystod o welliannau addysgeg eraill. Cynhelir cynhadledd Dysgu a Gyfoethogir gan Dechnoleg bob haf, gyda digwyddiadau tebyg eraill i rannu arfer da wedi'u cynnal yn ystod gweddill y flwyddyn (gan gynnwys Fforymau Academi a chynhadledd fechan) gan roi cyfle i staff rannu eu profiadau a dysgu o arfer gorau ledled y Brifysgol (a thu hwnt).

Mae Prifysgol Aberystwyth eisoes yn cynnig sawl rhaglen drwy ddulliau Dysgu o Bell ac ar-lein a bydd yn parhau i gefnogi unedau academaidd y Brifysgol sy'n dymuno cyflwyno eu cynnwys drwy dechnegau eraill ar-lein a dysgu o bell. Mae'r Grŵp E-ddysgu yn cynnig sesiynau hyfforddi sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer y rhai sy'n creu cynnwys ar-lein i fyfyrwyr Dysgu o Bell.

**Diweddaru'r ddarpariaeth TG ac adnoddau'r llyfrgell**

Byddwn yn buddsoddi cyllid yn ein darpariaeth llyfrgell ac adnoddau dysgu, gan gynnwys meddalwedd rhestr ddarllen a gwasanaethau cysylltiedig a chyfleoedd datblygu sgiliau llythrennedd gwybodaeth i fyfyrwyr. Byddwn yn sicrhau bod ein horiau agor yn ateb anghenion ein myfyrwyr, gan gynnwys buddsoddi mewn agor 24/7 yn ystod y tymor.

Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith a gwasanaethau TG i ddiwallu anghenion ein myfyrwyr ac yn ymateb i ddefnydd sy'n newid o dechnoleg mewn Addysg Uwch.

**Canlyniadau a fwriedir**

Ein nod yw y bydd y cynlluniau yn cyfrannu at yr amcanion Hyrwyddo Addysg Uwch a gyflwynir yn y Cynllun hwn drwy:

- Sicrhau ein bod yn gallu darparu ystad ddigidol sydd â chyfarpar gwell i fyfyrwyr, gydag adnoddau o ansawdd uchel, ac yn ymgysylltu â thechnoleg fodern ac yn gwrando ar anghenion y corff myfyrwyr wrth ddarparu adnoddau newydd. Mae hyn yn hyrwyddo Addysg Uwch yng Nghymru fel cyrchfan o ddewis ac yn gwella ansawdd y ddarpariaeth ddysgu ac addysgu y gallwn ei chynnig i fyfyrwyr.

*3) Cryfhau cyflogadwyedd graddedigion*

**Cymorth â Gyrfaoedd**

Gan gydweithio â chydweithwyr ar draws yr adrannau a'r athrofeydd, bydd y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn darparu ystod o gyfleoedd i fyfyrwyr eu cynorthwyo a'u cefnogi i ddatblygu setiau sgiliau priodol a fydd yn diwallu anghenion cyflogwyr y dyfodol. Yn ogystal, rhoddir blaenoriaeth i weithgareddau sy'n grymuso myfyrwyr i adnabod eu sgiliau ac i allu mynegi'r rhain i gyflogwyr y dyfodol a darparwyr cyrsiau astudio pellach. Yn ogystal â'r rhai y cyfeirir atynt yn A8 uchod, bydd y gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- Rhaglenni addysg ar yrfa sy'n bwrpasol ac wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion penodol myfyrwyr yn ein disgyblaethau academaidd amrywiol
- Rhaglen gweithdy i ddatblygu sgiliau ar hyd y flwyddyn academaidd gyfan
- Gweithdai datblygu i wella sgiliau sy'n gysylltiedig â llunio ceisiadau
- Gweithdai a chyflwyniadau dan arweiniad cyflogwyr ar y campws drwy gydol y flwyddyn
- Hyrwyddo ffeiriau recriwtio a gwybodaeth ledled y Deyrnas Unedig
- Cyfarwyddyd paratoi ar gyfer cael lleoliadau blwyddyn mewn Diwydiant / Blwyddyn mewn Gwaith
- Cefnogaeth i sicrhau interniaethau haf
- Sgiliau cyngor arbenigol i rymuso myfyrwyr i wneud dewisiadau gyrfa rhesymol a hyddysg
- Darparu AberConnections fel porth i fyfyrwyr gael mynediad at yr holl swyddi gwag, gweithdai a digwyddiadau dan arweiniad cyflogwyr trwy gydol y flwyddyn, apwyntiadau i gael arweiniad, amseroedd i alw draw, yn ogystal â chofrestru diddordeb mewn lleoliadau gwaith a blwyddyn mewn diwydiant
- Hwyluso cyfleoedd e-Fentora
- Hyrwyddo swyddi gwag a chyfleoedd rhyngwladol

Gan fod myfyrwyr yn gofyn am Ffeiriau Gyrfaoedd mwy o faint yn hytrach na rhai pwrpasol yn y Gyfadran, bydd datblygu dwy ffair fawr bob blwyddyn yn parhau i gael ei fonitro o ran ei ddefnyddioldeb. Cysylltir ag ystod ehangach o gyflogwyr a gwneir pob ymdrech i gynyddu'r nifer sy'n bresennol. Gan y bydd ystod gynrychioliadol o gyflogwyr yno sy'n cwmpasu'r holl ddisgyblaethau, cynigir opsiynau gyrfa posibl ar gyfer pob maes pwnc. Yn ogystal, bydd ymdrechion yn parhau i sicrhau bod y cyflogwyr sy'n bresennol yn cynrychioli sefydliadau cyhoeddus, cwmnïau preifat a'r trydydd sector yn ogystal â sefydliadau o faint amrywiol.

**Lleoliadau Gwaith a gweithdai**

Rydym yn parhau i roi cefnogaeth â blwyddyn integredig mewn Diwydiant a'r Cynllun Blwyddyn mewn Gwaith, fel y nodwyd yn flaenorol. Bydd llawer o ffocws hefyd yn cael ei gyfeirio at interniaethau haf, gan fod nifer cynyddol ohonynt yn ymddangos ar gyfer myfyrwyr sy'n gorffen eu blwyddyn gyntaf o astudiaethau israddedig. Bydd cynyddu'r ymgysylltu â chynlluniau o'r fath hefyd yn cefnogi'r nifer sy'n manteisio ar leoliadau blwyddyn mewn diwydiant. Bydd y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Hygyrchedd i sicrhau nad yw myfyrwyr anabl, ymadawyr gofal neu fyfyrwyr trawsryweddol dan anfantais wrth ddod o hyd i gyfleoedd lleoliad.

Gan fod y Cynllun Blwyddyn mewn Gwaith yn agosáu at ei 44fed blwyddyn, bydd ymdrechion yn parhau i hyrwyddo hyn i'r holl fyfyrwyr nad yw eu hadrannau ar hyn o bryd yn cynnig rhaglenni blwyddyn integredig mewn diwydiant.

Bydd cefnogaeth yn parhau i'r rheini ar flwyddyn integredig mewn diwydiant, gyda datblygiad pellach y modiwl CD20110 a datblygu darpariaeth ar-lein i fyfyrwyr ei defnyddio yn unol â'u hanghenion a'u hamserlen eu hunain.

Bydd Cynllun Haf AberYmlaen yn canolbwyntio ar roi profiad gwaith i'r rheini sydd ag ychydig neu ddim profiad blaenorol ac sy'n fregus wrth gystadlu am gyfleoedd yn y farchnad lafur ehangach.

Bydd Clwb Hwb AberYmlaen yn rhoi ysgogiad terfynol i fyfyrwyr sydd ag anableddau datganedig, o gefndiroedd ehangu cyfranogiad, heb fawr os nad dim profiad gwaith,

yn ogystal â'r rhai sydd wedi methu ag ymgysylltu â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn ystod eu hastudiaethau. Mewn ymgais olaf i helpu myfyrwyr i baratoi at eu camau nesaf, nod Clwb Hwb yw cyflwyno'r opsiynau i fyfyrwyr a rhoi strategaethau iddynt i'w helpu i gystadlu yn y farchnad lafur i raddedigion.

Mae GwaithAber yn parhau i gynnig profiad gwaith cyflogedig achlysurol i fyfyrwyr yn ystod eu hastudiaethau, gan roi cymorth ariannol i nifer a phrofiad gwaith ymarferol a defnyddiol mewn sawl maes a galwedigaeth.

**Cymorth Entrepreneuraidd a gweithio gyda Chyflogwyr Lleol a Chenedlaethol**
Mae'r rhwydwaith o gyrff proffesiynol, cyflogwyr, cyn-fyfyrwyr a sefydliadau y mae'r Brifysgol yn cydweithredu â nhw yn parhau i ddatblygu. Gyda chysylltiadau agos â chyrff proffesiynol fel Sefydliad Cyflogwyr Myfyrwyr, Cymdeithas Genedlaethol y Gwasanaeth Cyflogaeth Myfyrwyr, Enterprise Educators UK, a Chymdeithas Gwasanaethau Cynghori ar Yrfaoedd Graddedigion (AGCAS), mae llawer o waith yn cael ei wneud yn genedlaethol ac mewn grwpiau rhanbarthol i ddatblygu rhwydweithiau effeithiol sy'n gwella rhagolygon gyrfa myfyrwyr yng Nghymru. Mae grwpiau rhanbarthol Cymru i'w cael o fewn y cyrff hyn i ganolbwyntio sylw ar gyd-destun Cymru, yn enwedig o fewn AGCAS wrth i AGCAS Cymru Wales (a sefydlwyd yn Hydref 2017) fwrw ati i sicrhau bod yr agenda rhanbarthol yn flaenllaw yn y gwaith a wneir gan Wasanaethau Gyrfaoedd mewn sefydliadau AU yng Nghymru.

Mae'r system CRM gydweithredol a ddefnyddir yn fewnol gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd a'r adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi yn sicrhau'r defnydd gorau posibl ar gysylltiadau â chyflogwyr a sefydliadau ledled Cymru, yn enwedig gyda busnesau bach a chanolig sydd mor hanfodol i economi'r rhanbarth. Maent yn ymwneud yn uniongyrchol gyda myfyrwyr ledled y campws ac o fewn y cwricwlwm, gan roi cyfleoedd ychwanegol i fyfyrwyr ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflogwyr ac i ddatblygu eu hymwybyddiaeth fasnachol.

Caiff rhwydweithiau ychwanegol eu ffurfio a'u diweddaru yn rheolaidd trwy gymryd rhan yn gyson mewn nifer o grwpiau gorchwyl a gweithgorau rhanbarthol megis grŵp Strategaeth Adfywio Economaidd Ceredigion, Fforwm Bargen Twf Canolbarth Cymru, Busnes Cymru, Antur Teifi, Creu Sbarc, Hwb Menter Canolbarth Cymru, Campws Arloesi a Menter Aberystwyth, ac ati.

Mae data TrywyddGyrfa yn parhau i fod yn ffynhonnell wybodaeth gyfoethog am fwriadau gyrfa myfyrwyr. Mae'r data hefyd yn rhoi dealltwriaeth ynghylch y rhanbarthau daearyddol y mae myfyrwyr yn teimlo sy'n debygol o fod yn lleoliad iddynt ar ôl graddio. Mae hyn yn rhoi modd i'r Gwasanaeth Gyrfa chwilio am wybodaeth am y farchnad lafur sy'n gysylltiedig â'r prif ranbarthau daearyddol sydd o ddiddordeb i fyfyrwyr sy'n agosáu at adeg graddio. Ffocws cryn sylw fydd gwneud myfyrwyr yn fwy ymwybodol o'r dewis sydd ar gael iddynt yn y farchnad lafur i raddedigion ehangach, yn ogystal â rhoi data yn uniongyrchol i fyfyrwyr i ddangos iddynt ble mae swyddi gwag a pha ranbarthau daearyddol a allai gynnig dyfodol posibl iddynt fel y camau nesaf.

**Canlyniadau a fwriedir**

Ein nod yw y bydd y cynlluniau yn cyfrannu at yr amcanion Hyrwyddo Addysg Uwch a gyflwynir yn y Cynllun hwn drwy:

- Feithrin enw da Addysg Uwch Cymru fel cartref i raddedigion o safon sydd â set sgiliau ar lefel uchel.

*4) Annog uchelgais i fynd i addysg uwch ymysg darpar fyfyrwyr.*

**Sgyrsiau Aber ag Ysgolion**

Yn ogystal â gwaith i sicrhau bod myfyrwyr o bob cefndir yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth a'r offer sydd eu hangen arnynt i wneud y dewisiadau cywir ynghylch addysg uwch, bydd ein timau Cyswllt Ysgolion yn parhau i weithio gydag ysgolion ar draws y Deyrnas Unedig i ddarparu gwaith sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm ac i gynorthwyo mynediad at academyddion er mwyn helpu i ennyn diddordeb academaidd a brwdfrydedd yn eu pwnc ymhlith myfyrwyr Safon Uwch.

**Ysgoloriaethau Mynediad**

Rydym yn cynnig ysgoloriaethau a gwobrau i annog rhagoriaeth ac uchelgais, yn seiliedig ar gais cystadleuol ac arholiad.

**Canlyniadau a fwriedir**

Ein nod yw y bydd y cynlluniau yn cyfrannu at yr amcanion Hyrwyddo Addysg Uwch a gyflwynir yn y Cynllun hwn drwy:

- Chwalu rhagdybiaethau bod Addysg Uwch ar gyfer grwpiau penodol yn unig.
- Rhoi help a chyngor i fyfyrwyr wrth fynd drwy'r system ymgeisio.
- Annog myfyrwyr i wneud eu gorau ac anelu at ragoriaeth yn eu gwaith academaidd.

*5) Gwella profiad y myfyrwyr drwy fentrau i wella lles.*

**System Mentor a Thiwtor Personol**

Mae'r Brifysgol yn cynnig amrywiaeth o wasanaeth cymorth i gynorthwyo cynnydd a chyrhaeddiad myfyrwyr. Mae pob myfyriwr yn cael Tiwtor Personol yn ei adran academaidd. Cylch gwaith is-grŵp Pwyllgor Profiad Myfyrwyr y Brifysgol yw monitro a gwella gwaith y cynllun.

**Gwaith ar yr ystadau i wella profiad y myfyrwyr**

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein hystad, gan sicrhau bod ein mannau dysgu ac addysgu yn addas i'r diben ac yn cyd-fynd â galwadau newidiol am fannau hyblyg sydd eu hangen ar dechnegau addysgu modern. Byddwn hefyd yn datblygu ein hystad er mwyn i brofiad y myfyriwr gael cefnogaeth mannau sy'n annog gweithio mewn grŵp, profiadau hamdden o ansawdd uchel a gweithgareddau chwaraeon ar gyfer iechyd a lles meddwl. Yn 2020/21 rydym yn rhagweld y byddwn yn gweithio trwy strategaeth gydlynol ar gyfer datblygu ardaloedd cymdeithasol allweddol, gan wella cysylltedd rhwng mannau gwahanol ac

ansawdd ardaloedd cymdeithasol i adfywio ymdeimlad o le dinesig sy’n cefnogi lles myfyrwyr a’r profiad byw a dysgu.

Rydym o’r farn fod rheolaeth ein hystad yn ffactor bwysig yn iechyd a lles ein myfyrwyr ac wrth gefnogi’r agenda Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, yn ogystal â mentrau sy’n defnyddio ein doniau ein hunain i hyrwyddo bioamrywiaeth, lleihau gwastraff ac annog effeithlonrwydd ynni.

**Y Ganolfan Chwaraeon**

Defnyddir cronfeydd y Cynllun Mynediad a Ffioedd i barhau i gynnig aelodaeth am ddim i’r Ganolfan Chwaraeon ar y campws i fyfyrwyr preswyl Prifysgol Aberystwyth. Ers cyflwyno’r arloesedd hwn yn 2017/18, mae’r defnydd ar y Ganolfan Chwaraeon wedi dyblu; cynhaliwyd sesiynau penodol i annog pob myfyriwr, beth bynnag fo’u cefndir blaenorol o ran gweithgarwch corfforol, i gymryd rhan mewn Chwaraeon.

**Canlyniadau a fwriedir**

Ein nod yw y bydd y cynlluniau yn cyfrannu at yr amcanion Hyrwyddo Addysg Uwch a gyflwynir yn y Cynllun hwn drwy:

- Hyrwyddo iechyd a lles, cyfrannu at amgylchedd cadarnhaol ar y campws a phrofiad rhagorol i fyfyrwyr, yn ogystal â gwella perfformiad myfyrwyr trwy annog cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.
- Sicrhau amgylchedd campws sy’n adlewyrchu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd.
- Ymgorffori egwyddorion Dinasyddiaeth Fyd-eang a Datblygu Cynaliadwy trwy annog cynaliadwyedd a gofalu am yr amgylchedd.

| **Cyflwyno Cynllun Mynediad a Ffioedd 2020/21 i CCAUC[1]** | |
|---|---|
| Dyddiad ei gymeradwyo gan y corff llywodraethu: | 02/09/2019 |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu: |  |
| Dyddiad: | 02/09/2019 |

[1] Wrth gyhoeddi cynlluniau mynediad a ffioedd ar wefannau sefydliadau, dylid ond cynnwys dyddiad y fersiwn derfynol a gyflwynwyd gan y corff llywodraethu ac a gymeradwywyd gan CCAUC.